# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 545 · Medi 2023 · 70c**



## Ras y Mynydd



Braf oedd gweld Ras y Mynydd yn dychwelyd wedi saib o dair mlynedd. Fel petai'r duwiau tywydd yn ymwybodol, mi gliriodd yr awyr fel daeth amser cychwyn y ras i ddarparu'r golygfeydd godidog o'r Carneddau.

Daeth 72 o redwyr brwd i'r Neuadd Goffa i gofrestru ar y noson am y ras 4.55 milltir, a ddisgrifwyd gan amryw fel "clasur".

Roedd hwyliau uchel ar y rhedwyr wrth iddynt ddisgwyl yn amyneddgar i'r cloc daro 7. Fel aeth y chwiban, carlamodd y rhedwyr o'r Neuadd Goffa. Gwibiai'r rhedwyr ar hyd y cwrs, a ddaeth o bob cŵr o Gymru, i olygfeydd ysblennydd Ynys Môn, Llŷn a Ddyffryn Ogwen.




**Yn y rhifyn yma**

Llwyddiant yn y Sioe 19




### Pris Llais Ogwan yn codi i 70c

Ers Ionawr 2010 mae pris Llais Ogwan wedi aros yn 50c. Oherwydd costau cynyddol, yn cynnwys argraffu mewn lliw llawn, **mae'n rhaid codi'r pris i 70c y rhifyn o fis Medi 2023 ymlaen**. Gobeithio eich bod chi, ein darllenwyr ffyddlon, yn teimlo bod hyn yn godiad rhesymol, a bod y Llais yn dal yn fargen!

# Llais Ogwan

**Rhif 545**
Medi 2023

**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

## Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Owain Evans.**

Y golygydd ym mis **Hydref** fydd
**Trystan Pritchard**,
27 Allt Penybryn, Bethesda, LL57 3DB.
07402 373444
E-bost: trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 30 Medi** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 19 Hydref** yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

## Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**

## Dyddiadur y Dyffryn

**Medi**

16 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
18 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
23 Bore Coffi Clwb Gorffwysfan. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
23/ 24 Gŵyl Afon Ogwen
26 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
27 Clwb Hanes Rachub. J.Ll. Williams. Cynffonwyr Punt y Gynffon. Clwb Criced 7.00.
29 Bore Coffi Gofal Cancr MacMillan. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
30 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

**Hydref**

2 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
9 Cymd. Hanes D. Ogwen. Angharad Tomos. Castell Siwgwr. Festri Jerusalem am 7.00.
10 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
14 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
16 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
19 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Awst**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (99) | Dilys Parry, Rhiwlas. |
| £20.00 | (174) | Jo M. Oliver, Bethesda. |
| £10.00 | (178) | Ann Jones, Rachub. |
| £5.00 | (95) | Gwyneth Morris, Gerlan. |

**Gwobrau Medi**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (65) | Rebecca Roberts, Bethesda. |
| £20.00 | (44) | Donna Hughes, Rhiwlas. |
| £10.00 | (97) | Walter W. Williams, Bethesda. |
| £5.00 | (83) | Nigel Beidas, Tregarth. |

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £20.00 | Er cof am David Lyn a Cemlyn Llŷr, oddi wrth Bob, Cynthia a Robert, 6 Bro Syr Ifor, Tregarth. |
| £10.00 | Alan Davies, Porthaethwy, Ynys Môn |
| £2.30 | Wendy Dore, Garneddwen, Bethesda. |

**Diolch yn fawr**

post@llaisogwan.com

# Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda,
LL57 3TY. (01248 601526)

Gobeithio fod pawb wedi cael amser i ymlacio ac i fwynhau dros yr haf – er gwaetha'r tywydd tamp!

Bydd llawer o bobl ifanc wedi derbyn eu canlyniadau ac yn penderfynu beth i'w wneud nesaf gyda'u bywydau. Pob dymuniad da i chi gyd, beth bynnag fydd y cam hwnnw.

**Geni**
Llongyfarchiadau mawr i Caro a Juan, Stryd y Ffynnon, ar enedigaeth mab bach arall. Ganwyd Lucio bach adref ar yr $2^{ail}$ o Orffennaf am 2.25 y bore. Mae Emilio, ei frawd mawr, wrth ei fodd efo'i frawd bach newydd. Mae Caro yn enedigol o'r Almaen, a Juan o Puerto Rico ond mae Lucio Elías Estrella-Coch yn hogyn Gerlan go iawn!

**Gwellhad Buan**
Dros yr wythnosau diwethaf, mae sawl un wedi bod yn wael a rhai wedi bod yn yr ysbyty. Cofion gorau atoch i gyd a dymuniadau am wellhad buan;

Dychwelodd Ann Williams, Stryd y Ffynnon, i Ysbyty Gobowen am gyfnod. Gobeithio dy fod yn parhau i gryfhau o nerth i nerth, Ann.

Nid yw Dianne Jones, Gwernydd, wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar. Gobeithio dy fod yn cryfhau ac yn teimlo'n llawer gwell erbyn hyn, Dianne.

Cafodd Lisa Williams, Ffordd Gerlan, lawdriniaeth ym mis Gorffennaf. Mae'n dda dy weld di'n cryfhau, Lisa, a gobeithio y byddi di'n cael dychwelyd i dy waith yn fuan.

**Nain a Thaid unwaith eto.**
Mae David a Siân Roberts, Ffordd Gerlan, wedi dod yn Nain a Thaid eto.........dim jysd unwaith, ond dwy waith dros y misoedd diwethaf! Llongyfarchiadau i'w merch Awen a'i phartner, Harry, ar enedigaeth eu mab, Tomi Llew. Mae Awen yn byw yn Hen Golwyn bellach, ond gobeithio y cawn eich gweld chi a'r babi newydd adra'n Gerlan yn fuan.

Mae Shona, merch David, a'i phartner Nathan; wedi dod yn Fam a Thad i hogyn bach ym mis Gorffennaf hefyd ac yn byw ym Mangor. Croeso i'r byd, Efan Cai!

Mae 'na ddigon i gadw'r teulu'n brysur ar hyn o bryd felly, a digon o waith gwarchod i Nain a Thaid yn y dyfodol. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.

**Cydymdeimlo**
Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at Hannah a Jez Shea, Ianto, Cai a'r teulu. Bu i Hannah golli ei thad yn ddiweddar a gyrrwn ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

**Pen-blwydd Hapus**
Pen-blwydd hapus arbennig i Dion Jones, 2 Hen Gapel, ar ei ben-blwydd yn 50 oed ar yr $17^{eg}$ o Awst. Cariad mawr iti Dion gan Catrin a'r teulu oll. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

**Swydd newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Judith Kaufmann, Stryd y Ffynnon, sydd wedi derbyn swydd newydd efo Menter Iaith. Bydd colled ar dy ôl ym Mhartneriaeth Ogwen! Pob dymuniad da i ti, Judith, a diolch am arwain sawl cynllun mor frwdfrydig yn y gymuned dros y blynyddoedd diwethaf.

**Priodasau**
Llongyfarchiadau i Laura a Danial Ogwen Jones ar eu priodas ddiweddar. Mae Danial yn fab i Richard a Rhian Ogwen ac mae'n amlwg o'r lluniau bod y diwrnod wedi bod yn un hynod arbennig. Pob dymuniad da i chi'ch dau.

Llongyfarchiadau i Zoe a Dion Doyle, Tyddyn Du, ar eu priodas ar y $19^{eg}$ o Awst. Pob lwc i chithau hefyd a dymuniadau gorau i chi'ch dau.

**Croeso i Gerlan**
Mae'n hyfryd gweld bod cwpwl Cymraeg ifanc lleol wedi symud i Ciltwllan yn ddiweddar. Tydyn nhw ddim wedi symud yn bell o Fraichmelyn ond gobeithio y bydd Bow a Gwenllïan Dafydd yn hapus iawn yn eu cartref newydd – heb anghofio Sid y ci wrth gwrs.



## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Nerys Costello, Stryd y Ffynnon, ar ei llwyddiant o gwblhau 'skydive' i godi arian at Ymchwil Alzheimers. Wrth wynebu ei hofn o uchder, llwyddodd i gasglu dros £1,545 i'r elusen. Hoffai ddiolch am yr holl gefnogaeth, ac am y cyfraniadau hael tuag at achos mor agos i'w chalon.

**Y Lle Celf**
Llongyfarchiadau mawr iawn i Morgan Griffith, Menna Thomas a Rebecca Hardy-Griffith unwaith eto ar eu llwyddiant yn curadu'r Lle Celf yn Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Os fuoch chi'n ddigon lwcus o gael mynd i'r Eisteddfod eleni, yna 'roedd gwledd o waith celf o'r safon uchaf yn eich disgwyl yn y 'Lle Celf', a braf oedd cael wynebau cyfarwydd o Stryd Goronwy yno i'ch croesawu.

**Pob lwc!**
Pob dymuniad da i Mari Davies, Tŷ Dŵr, a'i phartner, Tim; sydd wedi symud i Melbourne am flwyddyn. Yn ogystal â gweithio yno fel meddyg, gobeithio y cewch chi anturiaethau lu yno a chyfle i fwynhau'r wlad hynod yma.

HYWELWILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

Dilynwch Llais Ogwan ar **www.llaisogwan.com**

# Llandygái

**Pen-blwydd**
Dathlodd Mrs. Eirlys Edwards, 23 Pentref Llandygai, ben-blwydd arbennig iawn yn 90 oed ar ddydd Llun Gŵyl y Banc. Cafodd benwythnos bleserus yng nghwmni'r teulu a ddaeth draw i'w gweld o bob rhan o'r wlad. Cofion gorau gan bawb o'r ardal.

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Croeso nôl!**
Daeth y gwyliau i ben a chroesawn blant, staff a Phennaeth Ysgol Llandygai, Mr. Elfed Morgan Morris, yn ôl ar gyfer Tymor yr Hydref. Edrychwn ymlaen dros y misoedd nesaf i glywed hanes yr hwyl a'r llwyddiant! Mae'n braf gweld y cysylltiad hanesyddol rhwng yr eglwys a'i hysgol yn dal mor glos. Fel y gwyddoch, mae tri aelod o'r gynulleidfa a'r Ficer ar y Bwrdd Llywodraethol.

**Eglwys Agored**
Erys yr eglwys ar agor i bawb yn ddyddiol o ganol bore tan hwyr prynhawn fel rhan o'r cynllun cenedlaethol "Eglwysi Agored". Gallwch ddarganfod hanes yr eglwys ar bosteri a labelau yn yr adeilad.

**Bedydd**
Daeth yr efeilliaid, Eva Rose ac Isla Mae, i St Tegai ar Orffennaf $23^{ain}$ i gael eu derbyn fel aelodau o eglwys Crist. Mae'r babis bach a'u rhieni yn byw ym Mangor ond gyda chysylltiad teuluol â'r eglwys. Pob bendith ar y ddwy ac ar eu teulu.

**Ymwelwyr yr Haf**
Croesawyd sawl hen ffrind i'n plith dros yr haf; Dr Daphne Russell sydd bellach yn byw yn yr Alban, ein cyn-ficer yr Hybarch John a'i wraig y Parch. Sue Matthews o Seland Newydd a Richard Douglas Pennant o Ynys Cyprus. Pleser i'w gweld yn ôl ym Mro Ogwen!

**Diolchgarwch 2023**
Cynhelir gwasanaeth Diolchgarwch St Tegai ar ddydd Sul, Hydref 8fed am 11.o'r gloch. Yn ôl ein arfer, byddwn yn casglu rhoddion ar gyfer banciau bwyd lleol (gweler wefan Banc Bwyd Cadeirlan Bangor *https://www.bangorfoodbank.org/gyfraniadawu* am awgrymiadau).

**Gwaith Cynnal a Chadw Haf 2023**
Torrwyd brigau peryglus yn y fynwent yn dilyn stormydd Gorffennaf. Roedd sawl coeden wedi dioddef difrod a brigau yn bygwth y maes parcio gyferbyn, felly cawsom ganiatadd brys gan yr esgobaeth i drin y coed. Saif yr eglwys a'r fynwent mewn ardal cadwraeth ac mae rhaid cadw at y rheolau cenedlaethol ar gyfer unrhyw waith cynnal a chadw.

Atgoffwn ein darllenwyr fod sawl tasg hanfodol arall wedi ei gyflawni dros yr haf; diweddaru'r system trydanol; peintio'r giatiau; sicrhau drws y clochdy dros dro; torri'r fynwent; trwsio'r fainc goffa a glanhau landeri. Diolch i bawb a roddodd eu hamser i drefnu y gwahanol weithwyr.

**Gwasanaethau**

**Ar y Sul**
Mae'r gwasanaethau St. Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr. Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248 361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.



Y giatiau yn eu gogoniant ar ôl gwaith atgyweirio'r haf.

## THOMAS HUGHES (TWM STESION ROAD)

Ychydig fisoedd yn ôl wedi apêl am wybodaeth o artist lleol cafwyd yr enw a dyma i chi dipyn o'i hanes, diolch i'w ferch Alison Jones, Rachub, (Royal Oak gynt).

Yn un o bump o blant, a'r unig hogyn ganwyd Thomas Hughes yn Llandrillo yn Rhos, ger Bae Colwyn ar Fedi $2^{il}$ 1933, ond yn Ffordd Tanrhiw, Tregarth y cafodd ei fagu gyda'i fodryb. Wedi gadael yr ysgol, fel llawer o'i gyfoedion, aeth i'r fyddin ac yna y bu tan 1953 pan ddaeth yn ôl, priodi, a mynd i fyw i Borthaethwy a gweithio ar y rheilffordd. Ond yn ôl i Ddyffryn Ogwen y ddaeth, i Fryntirion yn gyntaf ac yna i Ffordd Stesion yng ngwaelod y pentref. Aeth i weithio i'r chwarel i hollti a naddu ac adnabuwyd ef wrth gwrs fel Twm Stesion Road.

Byddai wrth ei fodd yn astudo'i gyd-weithwyr gan eu darlunio wrth eu gwaith ar wyneb y graig



GENEDLAETHOL
FRENHINOL CYMRU
BANGOR A'R CYLCH
*Arwyddir drwy'r Dystysgrif hon i*
Thomas Hughes
*ennill anrhydedd am waith yn adran*
Celfyddyd Gain
*yn yr Arddangosfa Gelfyddyd a Chrefft*
AWST 1971

neu yn y siediau. Roedd pawb yn dotio at ei waith ac yn ceisio ei berswadio i arddangos a thynnu mwy o sylw atynt. Ond un tawel a phreifat oedd Twm o ran natur a dim eisiau tynnu sylw ato'i hun. Ond cafodd ei ffridiau hwyl arno! Pan ddaeth yr Eisteddfod Genedlaethol i Fangor yn 1971 anfonwyd cyfres o'i luniau i'r adran Gelf ganddynt, heb yn wybod iddo. Yno derbyniodd gwobr 'Anrhydedd am ei waith yn y Gelfyddyd Gain' Mae'n debyg bod pawb ar ben



Darn Pont y Borth a wnaed efo matsys. Cofiai ei ferch, Alison, eu torri i'w maint gyda'i Thad.

ei digon pan ddigwyddodd hyn a bod y ffrindiau yn falch iawn iddynt fentro. Yn sgîl hyn cafodd gynnig gwaith yn darlithio ar y pwnc, ond gwrthod oedd yr hanes ac aros yn y chwarel. Roedd yn hapus braf yn gwario'i amser yn arlunio ac yn gwneud modelau o ddynion wrth eu gwaith.

Roedd llawer o'i luniau i'w gweld ar waliau Tafarn y Fictoria ym Methesda. Bu farw Twm ar Fedi $5^{ed}$ 2008, er hyn, mae ei waith wedi cyrraedd llawer o aelwydydd a hyd yn oed wledydd tramor bellach.



# Newidiadau Cyffrous Yng Nghoedwig Parc Y Moch





Rydym yn falch iawn o allu cyhoeddi newidiadau cyffrous yng nghoedwig Parc y Moch. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r gofod wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau amrywiol ar gyfer nifer o grwpiau gwahanol. Mae hyn yn gynnwys cynnal gweithdai gwaith coed traddodiadol a rhedeg ysgol goedwig ar gyfer plant, sef dysgu drwy chwarae yn yr awyr agored. Mae nifer o'r gweithgareddau yma wedi eu cefnogi gan ein ffrindiau yn Elusen Ogwen a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau, sydd wedi bod yn gefnogol iawn o greu canolfan awyr agored yn Nyffryn Ogwen.

Yn adeiladu ar y gwaith yma rydym wedi bod yn ffodus iawn o dderbyn grant trwy'r cynllun Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru i drawsnewid y coetir. Bydd hyn yn helpu i wella'r gofod i greu safle i'r gymuned i'w ddefnyddio a'i fwynhau. Bydd y grant yma yn galluogi nifer o welliannau i seilwaith cyffredinol y safle; fel y llwybrau a'r traciau i wneud y gofod yn fwy hygyrch ar gyfer pawb, adeiladu giât bren i gerddwyr allu mynychu'r safle yn haws, a rac beiciau i annog beicio. Bydd y goedwig yn agored i gerddwyr a phobl sydd eisio treulio dipyn bach o amser mewn natur, mae'n lle braf i ddod i ddianc am sbel, ac yr ydym isio gwneud hynnu'n haws i drigolion y dyffryn.

Dros y ddwy flynedd nesaf byddwn hefyd yn cynnal nifer o weithgareddau yn y goedwig yn rhad ac am ddim. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu chi i'r goedwig ar gyfer ein gweithgareddau "rhannu sgiliau", aeth y sesiwn cyntaf yn wych ar ddiwedd mis Awst; gyda dros 50 o bobl o bob oedran wedi dod draw i ddysgu drymio a sut i daflu bwyall(!). Bydd yna sesiynau misol ar bnawniau Dydd Sadwrn, a hefyd diwrnodiau agored i ddysgu sgiliau traddodiadol ar gyfer oedolion. Ar hyn o bryd, efo cefnogaeth y grant yma, gallwn gynnal hyn i gyd am ddim ar gyfer y gymuned. Peidiwch â methu'r cyfle o ddod i ddysgu rhywbeth newydd.

Yn yr hir dymor gobeithiwn greu canolfan ar gyfer cynnal bob mathau o weithgareddau awyr agored, rhywle ar gyfer plant ac oedolion. Yn anffodus mae'r sefyllfa parcio bresennol yn rhwystredig, felly rydym yn annog pawb i gerdded neu seiclo os bosib. Rydym 200m o'r Lôn Las, a hefyd mae yna lwybrau cyhoeddus yn cyrraedd o Rachub a Tregarth.

Am fwy o wybodaeth gallwch gysylltu â parcymoch@gmail.com, neu trwy ein tudalen Facebook; Parc y Moch.




# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Cydymdeimlo**

*Mrs. Ruth Williams*

Ar y 26ain Orffennaf bu farw Ruth Williams, Fferm Bryn Glas, Minffordd.
'Roedd Ruth yn ddynes hynod gyfeillgar ac yn hoff iawn o gael sgwrs. Anfonwn ein cydymdeimlad at y meibion Arwel, Meurig, Alun, Gerallt, Eifion; a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth, bydd colled fawr ar ei hôl.

*Daniel (Dan) Thomas*

Bu farw Dan Thomas, Fferm Niwbwrch, yng nghwmni ei deulu ar 9fed o Orffennaf. Estynwn ein cydymdeimlad at Joan ei wraig, a'r plant William, Huw a Sarah a'u teuluoedd yn eu gofid a'u galar.

**Ysbyty**

Cofion a gwellhad buan i Arfon Thomas, Sŵn y Coed, Waen Wen sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ac heb fod yn rhy dda. Bydd Arfon ac Eva yn mudo mewn ychydig i fyw i Llanfairpwll. Pob dymuniad da i chwi yn eich cartref newydd.

**Llwyddiannau**

Llongyfarchiadau mawr i Elsi Griffiths, Caer Wredog, 7 oed, ar ddod yn ail mewn cystadleuaeth yn yr Adran Grefft yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, dyma'r tro cyntaf iddi gystadlu! Mae Elsi a'i chwaer Lydia wedi cael amryw o wobrwyau hefyd dros yr haf, mewn cystadleuthau marchogaeth gyda'i merlod bach gwyn. Da iawn chwi.



Daeth anrhydedd i Anna Pritchard, yn y Babell Gelf yn yr Eisteddfod ym Moduan. Dewiswyd un o'i carthenni gan yr Amgueddfa Genedlaethol i fod yn rhan o'u casgliad. Llongyfarchiadau mawr i ti Anna!

Yn yr eisteddfod hefyd oedd Ilid Ann Jones, Cilfan y Coed, oedd yn chwarae'r organ i'r Gymanfa Ganu a'r Seremonïau yn ystod yr wythnos. Bu iddi hefyd lansio ei llyfr ar Leila Megane yn ystod wythnos yr eisteddfod.

**Lladrata**

Yn ystod yr haf y mae nifer o gerbydau yng Nglasinfryn wedi cael eu torri mewn iddynt dros nos, ac eiddo wedi eu ddwyn. Gofalwch eich bod yn cloi eich cerbyd bob amser i rwystro y lladron yma!

**Bingo**

Cafwyd noson Bingo lwyddiannus ar 28ain o Orffennaf tuag at Banc Bwyd y Gadeirlan. Y mae £310 wedi ei anfon at yr elusen hon, ac maent yn hynod ddiolchgar am ein haeloni yn codi arian at yr achos yma. Diolch yn fawr iawn i'r ffyddloniad am eich cyfraniadau a'ch cefnogaeth. Bydd y Bingo nesaf ar 29ain o Fedi am 7yh gyda'r elw yn mynd at "Mind".

**Y Ganolfan**

Wedi ysbaid dros yr haf bydd y Ganolfan yn agor ei drysau unwaith eto at ddigwyddiadau'r Gaeaf! Mae dosbarthiadau Yoga yn dechrau ar 4ydd o Fedi, ac mae lle i aelodau newydd. Bydd y Grŵp Arlunio yn dechrau ar 8fed o Fedi ac mae croeso cynnes i aelodau newydd yno hefyd. Os hoffech ddefnyddio'r Ganolfan at unrhyw achlysur neu ddigwyddiad, mae'r telerau'n ffafriol iawn! Cysylltwch â Mair Griffiths, cyswllt fel yr uchod.

**Cylch Glasinfryn**

Ymweld â Stiwdio Anna Griffith, Bryn Gwredog Isaf, wnaeth y Cylch i orffen y tymor ar 9fed o Orffennaf. Sgwrsiodd Anna am ei diddordeb mewn Celf a Thecstiliau ers yn blentyn hyd at ei siwrna' at ddylunio a chynhyrchu eitemau fel plancedi, clustogau, dodrefnu a chardiau hyfryd. Aeth y criw wedyn i gartref Mair i gael te bach pnawn, a diolch byth 'roedd yr haul yn tywynnu a chawsom amser da yn sgwrsio yn yr ardd!. Bydd y Cylch yn ail ddechrau ar 13eg o Fedi pan y cawn Arddangosfa Gosod Blodau gan Rachel Williams o siop "*Dark Side of the Bloom*".

Yna ar 11eg o Hydref am 2yp, daw Cadi Iolen, o'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis, atom i siarad am "Pump degawd o gasglu". Croeso cynnes iawn i bawb ymuno.



**Arddangosfa Arlunio**

Cafwyd Arddangosfa lwyddiannus iawn ym mis Awst gan y Grŵp Arlunio, sydd yn cyfarfod yn y Ganolfan bob bore Gwener. Yr oedd y gwaith o safon uchel, gyda gwaith pob arlunydd yn wahanol ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau a thechnegau. Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan y cyhoedd a ddaeth i weld yr Arddangosfa dros y tri diwrnod. Gobeithir cynnal Arddangosfa tebyg yn flynyddol. Llongyfarchiadau i'r artistiaid i gyd!

**L. Sturrs**
**a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
**ADEILADWYR**
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Wrth inni hel deunydd ar gyfer rhifyn Medi o'r 'Llais', sylweddolwn mor gyflym mae tymor y gwyliau wedi mynd heibio, a fel mae'r mwyafrif o'n cwmpas yn dechrau setlo'n ôl i'r drefn arferol. Ond nid pawb......

Mae Jake Anderson, 69 Bro Emrys, a'i gariad, Caitlin, ar fin cychwyn ar farathon o daith fydd yn eu harwain maes o law i Awstralia. Dymunwn rwydd hynt iddynt ond, ar yr un pryd, gresynwn inni golli pobl ifainc mor ddymunol o'n plith. Mae ei frawd, Sam, sydd hefyd yn saer coed, am gario'r busnes ymlaen ar ei ben ei hun. Pob lwc iti, Sam. Mae dy gwsmeriaid yn rhoi gair rhagorol iti.

**"All change!"**
Mae'r rhai hynaf ohonom yn cofio teithio ar y trenau stêm erstalwm. Wrth inni gyrraedd rhyw Gyffordd neu'i gilydd , deuai'r Gorsaf-feistr, yn ei lifrai, ar y platfform a bloeddio 'All change'. Wel, digon tebyg mae hi wedi bod yn Nhalybont dros y gwyliau.

Mae Ben, Dee a'r hogiau wedi mynd o 34 Cae Gwigin i fyw i'r Faenol.

Mae Steph, Chunk a'r ddau fab wedi symud o 33 i fyw drws nesa yn 34; tra mae Keith, Thomas a Iona, mam Steph, wedi symud o 60 Bro Emrys i fyw yn 33 Cae Gwigin. Mae Siân, rhif 32, sy'n nith i Iona, wrth ei bodd efo'i chymdogion newydd.

Erbyn i 'Llais Ogwan' weld golau dydd, bydd Chelsey, merch hynaf Haydn a Wendy, 66 Bro Emrys, wedi symud o Fangor, efo'i mab teir-blwydd oed, Theo, i fyw i 16 Dolhelyg, cartref y diweddar Idris Thomas.

Croesawn Gavin a Naomi a'u merch fach chwe mis oed, Freya, i 60 Bro Emrys. Symudon nhw i mewn yn syth wedi i Iona a'r teulu ymadael. Un o Ddeiniolen ydi Gavin, a Naomi o Benrhosgarnedd.

Gobeithio y byddant yn mwynhau byw yn Nhalybont, ac y bydd pawb yn hapus iawn yn eu cartrefi newydd.

**Pen-blwyddi arbennig**
Dathlodd Summer Humphries, 6 Cae Gwigin ei phen-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Awst. Llongyfarchiadau a phob bendith i'r dyfodol, Summer.

Yn rhif 11, bu Wil Edwards yn dathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain yng nghanol mis Awst. Pob bendith, Wil, a iechyd da am sawl blwyddyn i ddod. Rydw i'n siwr bod y genod a'u teuluoedd wedi trefnu pen-blwydd i'w gofio.

Mae gwaith dal i fyny ar gymdoges Wil, Mrs Hewitt, oedd yn 96 ar Awst 23ain. Mae hi'n rhannu ei diwrnod arbennig efo Freya, merch fach blwydd oed ei gor-ŵyr, sy'n gwneud Mrs Hewitt yn hen-hen nain; yr unig un yn Nhalybont, tybed ?

**Dymuniadau da**
Anfonwn gofion cynnes iawn at Myfanwy Williams 4 Cae Gwigin, sydd wedi symud i Gartref Gofal Fairways (Sant Tysilio, gynt) ym Mhorthaethwy. Mae'n dda gennym ddeall ei bod yn fodlon yno ac yn setlo'n dda.
Ar yr un pryd, cofiwn am ei chyn-gymdoges a ffrind, Iola Williams, sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 93 yng Nghartref Nyrsio Ceris, Treborth.

**Brysiwch wella**
Cafodd Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, ei chipio i Ysbyty Gwynedd yn oriau mân bore Awst 22$^{ain}$. Deallwn ei bod yn cael gofal da yno, a gobeithio na fydd hi'n hir cyn cael mynd at ei merch, Sulwen, i wella'n iawn.

Dymunwn ddyddiau gwell i bawb yn y gymuned sydd ddim yn teimlo'n dda ar hyn o bryd. Brysiwch wella!

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Rhian a Cara, 75 Bro Emrys, a gollodd dad a thaid yn ddiweddar.
Dyma adroddiad Rhian ar gyfer 'Llais Ogwan'.

"Ar Awst 14$^{eg}$, yng Nghartref Meddyg Care, Porthmadog, bu farw Mr. Gwylfai Pritchard, tad Kevin, Rhian a Siân, a thaid i Lois, Cadi, Eve, Cara, Nel a Mali.

Bu Gwylfai yn byw yn 3 Rowen Cottages yn y Felinheli, efo'i wraig, y diweddar Averil, a hunodd yn 2019. Gorfod iddo symud i'r cartref ym Mhorthmadog yn 2020.

Ganwyd Gwylfai ar Mai 1$^{af}$ 1932, yn unig fab i Olwen a William Richard Pritchard, yn Stryd Cefnfaes, Bethesda.

Dilynodd ei Dad i'r Llu Awyr, ac wedyn aeth yn 'brentis Saer i Dickie's ym Mangor, cyn ymddeol yn adeiladwr cychod.

Ni fydd angladd, ond trefnir gwasanaeth preifat yn hwyrach ymlaen. "

Estynnwn gydymdeimlad diffuant i Frank a Jane Griffiths, Tŷ Mawr. Bu farw chwaer Frank yn ystod yr Haf, yn dilyn cystudd hir.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Corey Anderson, 69 Bro Emrys, ar gael ei godi'n Brif-Fachgen Ysgol Tryfan eleni, ac i Chloe Smith, Bro Awel, fydd yn Ddirpwy Brif- Eneth.

Mae'r ddau yn gredit i'w teuluoedd, ac yn sicr o fod yn Lys-Genhadon gwych i'r ysgol.

Chloe a Corey, mae'ch ffrindiau a'ch cymdogion yn Nhalybont yn falch iawn ohonoch. Dymunwn bob llwyddiant i chi yn y swydd.

Llongyfarchiadau i'n pobl ifainc a'n plant i gyd ar ganlyniadau Arholiadau'r Haf, ac ar flwyddyn dda o waith. Pob bendith i chi ar hyd ba bynnag llwybr y byddwch yn troedio y tymor hwn.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Medi 17$^{ain}$: Parchg. Dafydd Job.
Medi 24$^{ain}$: Parchg. Eric Jones.
Hydref 1$^{af}$: Parchg. R. O. Jones.
Hydref 8$^{fed}$: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Hydref 15$^{fed}$: Parchg. Trefor Lewis

Croeso cynnes i bawb.

*Aelod yn yr Ysbyty*
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at Mrs. Rhiannon Williams sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

*Ymddeoliad ein Gweinidog*
Dymunwn yn dda i'r Parchedig John Pritchard ar ei ymddeoliad ddiwedd Awst. Diolchwn iddo am ei wasanaeth a'i ofal amdanom ym Methlehem dros gyfnod o wyth mlynedd a hanner. Byddwn yn gweld ei golli yn fawr wrth i ni geisio penderfynnu ar ein dyfodol hebddo.

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Diolch**
Dymuna Siân a Christian o Gyffordd Llandudno, ddiolch o galon i bawb am y rhoddion caredig ar enedigaeth eu merch, Arwen Alun, ar y 15$^{fed}$ o Ebrill. Mae pawb wedi bod yn ffeind iawn, diolch. Mae Siân yn ferch i Sue a Bryn, Bron Arfon, Rachub.

Dymuna Erin a Jon Gambling ddiolch yn fawr i bawb am y dymuniadau gorau ac anrhegion ar achlysur eu priodas yng Nghaernarfon ar y 4$^{ydd}$ o Awst. Cafwyd y parti nos yn y Clwb Rygbi ym Methesda. Mae'r ddau yn byw yng Nghasnewydd. Mae Erin yn ferch i Sue a Bryn, Bron Arfon, Rachub.

**Clwb Hanes Rachub**
Bydd cyfarfod cyntaf ein tymor newydd yn cychwyn ar nos Fercher, y 27$^{ain}$ o Fedi yn y Clwb Criced am 7:00yh. Caiff y ddarlith gyntaf - yn dwyn y teitl '*Cynffonwyr Punt y Gynffon – Bethesda 1900-1903*' ei thraddodi gan Dr. John Llywelyn Williams, ac edrychwn ymlaen i glywed safbwyntiau diddorol, a gwahanol, efallai, ynglŷn â'r hanes.

Mae'r llyfr '*Defaid Doniol Caellwyngrydd*' wedi gwerthu'n arbennig o dda, a nifer fechan iawn o gopïau sydd ar ôl erbyn hyn. Maent ar gael i'w prynu yn siop Londis, Bethesda, yn ogystal â gan aelodau o bwyllgor y Clwb Hanes. Dymunwn ddiolch yn fawr i Mr. Jonathan Thomas, rheolwr siop Londis am ei gymorth parod gyda'r gwerthiant.

Cofiwch hefyd am y llyfryn sy'n cofnodi un mlynedd ar hugain o weithgareddau '*Clwb y Dwylo Prysur*', sef clwb a gynhelir ar gyfer ieuenctid yr ardal pob nos Wener yn ysgoldy Carmel, dan arweiniad Mrs. Helen Williams.
Mae dysgu am hanes lleol a chrwydro cynefin wedi bod yn themáu canolog i'r gweithgareddau hyn dros y blynyddoedd, ac mae ieuenctid ein hardal wedi dysgu llawer o dderbyn profiadau o'r fath. Llongyfarchiadau!

## Y Pedwar o Ddyffryn Ogwen

Da oedd gweld Eisteddfod lwyddiannus unwaith eto ym Moduan, wedi'r saib o dair mlynedd; a chyn-nifer o'r Dyffryn wedi cyfrannu a chystadlu mewn amryw o ffyrdd.
Ar y nos Sadwrn agoriadol yng nghyngerdd 'Y Curiad: Ddoe, Heddiw, Fory', cafodd 4 o'r Dyffryn y profiad o rannu'r un lwyfan. Fflur Roberts a Cari Griffiths, fel rhan o Gôr Gwerin yr Eisteddfod, Gwilym Bowen Rhys a Patrick Rimes fel rai o'r gwesteion arbennig. Roedd tocynnau i'r noson hon yn brin fel aur, gyda phob un wedi'w werthu o fewn hanner awr o'i roi ar werth! Llongyfarchiadau gwresog i bawb a bu'n rhan.



Gwilym Bowen Rhys, Patrick Rimes, Fflur Roberts, Cari Griffiths

## Carmel Llanllechid

*Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*
Medi 17: Oedfa.
Medi 24$^{ain}$: Oedfa.
Hydref 1$^{af}$: Oedfa.
Hydref 8$^{fed}$: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Hydref 15$^{fed}$: Diolchgarwch.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30yh.
CROESO CYNNES I BAWB

**Cleifion**
Rydan ni'n anfon ein dymuniadau gorau at aelodau sydd ddim yn dda ar hyn o bryd;
Mae gofalwyr yn ymweld â chartref Mr. Thomas Jones sawl gwaith y diwrnod i gynorthwyo gyda'r gofal sydd amdano.
Mae Miss Deila Griffith mewn cartref nyrsio yng Nghyffordd Llandudno, a mae Mrs. Betty Jones a Mrs. Glenys Edwards yng Nghartref Plas Ogwen.

**Ymddeoliad**
Ymddeolodd y Parchg. John Pritchard ar ddiwedd mis Gorffennaf. Bu yn Weinidog ar Eglwys Carmel am wyth mlynedd. Yn ystod y mis, wrth i'r gweinidog weinyddu ei gymundeb olaf tra'n weinidog ar yr eglwys, cafodd Dai Ifor Evans-Jones ei dderbyn yn aelod cyflawn ganddo. Ar y pedwerydd Sul yn y mis, cawsom gyfle i ddiolch i Mr. Pritchard am bopeth a wnaeth yn ystod ei weinidogaeth yma, yn ogystal a'i waith yn cyhoeddi'r Gronyn bob wythnos. Wedi'r oedfa honno, mi gawsom ni de a chacen yn yr ysgoldy. Cafom sgwrs hefyd a chyflwyno rhodd i Mr. Pritchard fel arwydd o'n gwerthfawrogi am ei waith ar hyd y blynyddoedd yma.
Dymunwn yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Rydan ni'n gobeithio yn fawr y cawn ei weld a'i glywed yn pregethu eto yn y dyfodol agos iawn.

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

**Profedigaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Wyn, Bryn Meddyg a brofodd brofedigaeth yn ddiweddar wedi iddo golli ei fam.

**Ras Hwyl Pentir**
Mae Ras Hwyl Pentir yn mynd o nerth i nerth gyda nifer y rhedwyr yn chwyddo pob blwyddyn. Y tro yma bum yn ffodus i gael noson hynod o braf a da yw adrodd bod 105 o redwyr wedi cyflawni'r cwrs.
Hoffem ddiolch i bawb fu'n cymryd rhan ac i'r gwirfoddolwyr oedd yn sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch yn eu lle. Bydd yr elw a wneir o'r ras yn cael ei rannu rhwng cymdeithasau yn cefnogi pobl lwcrain a mentrau amgylcheddol lleol.

**Prynhawn Coffi MacMillan**
Eleni cynhelir prynhawn coffi MacMillan ar 21$^{ain}$ Hydref am 2.00 y prynhawn yn Nhŷ'r Eglwys. Diolchwn flaen llaw i Linda am drefnu ac i Michelle am gynnig y lleoliad.

**Llongyfarchiadau**
'Rydym yn llongyfarch Cefin a Rhian, Ysgol Glanaethwy ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Cafwyd perfformiadau graenus gan yr aelodau ble dangoswyd meddwl gwreiddiol ac unigryw yn y sgriptio.

**Cyngerdd**
Mae bwriad i gynnal cyngerdd dan ofal Cefin a Rhian yn Eglwys Sant Cedol nos Sul, Hydref 8$^{fed}$. Bydd mwy o fanylion ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol nes at yr amser.

**Graddio**
Braf iawn yw gallu llongyfarch Cedol Dafydd am ennill gradd ym Mhrifysgol Caerfaddon. Mae Cedol yn parhau i brofi llwyddiant yng nghystadlaethau rhwyfo dros yr haf ac wedi cynrychioli ei wlad sawl gwaith.



Parchg. John Pritchard a'r gynulleidfa ar Sul 30ain Gorffennaf.



**Yr Ysgol Sul**

Ar fore Sul yn ystod yr haf, mi aeth plant yr Ysgol Sul am daith i weld y mulod bach ym Moelyci. Roedd y plant a'r ieuenctid wrth eu boddau yn mwytho, brwsio a bwydo'r mulod. Mi fabwysiadwyd un ohonynt gan yr Ysgol Sul, Dwynwen, sydd dros ugain oed. Cafodd bawb fwyd blasus wedi hynny yng Nghaffi Blas Lôn Las cyn dychwelyd am adref. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar fore Sul, y 10fed o fis Medi. Croeso mawr i bawb atom ni.

## CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID AWST

Cynhaliwyd Cyfarfod Misol y Cyngor Cymuned ar y 13fed o Fehefin yn Festri Capel Bethlehem, Talybont.

Ymunodd y Cynghorydd Sir Dafydd Meurig â'r cyfarfod. Trafodwyd bryderon am sefyllfa tai yn yr ardal i bobl lleol.

Mae'r caban bellach yn ei le ar y Cae Pêl-droed yn Nhalybont, gyda'r gobaith o brynnu peiriant torri gwair yn fuan.

Mae Partneriaeth y Carneddau wedi bod yn ffilmio ar y Carneddau ag edrychwn ymlaen i weld y prosiect gorffenedig.

**post@llaisogwan.com**


MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru


Dilynwch Llais Ogwan ar **www.llaisogwan.com**

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Blwyddyn Llais Ogwan newydd dda i bawb. Wel, mae'r haf yn dod i ben ac nid oedd tywydd mis Gorffennaf nac Awst yn ffafriol iawn, rhyw dywydd digon 'be 'nai' oedd hi a dweud y gwir. Ia, ryda' ni yn ôl efo'r tywydd unwaith eto. Dyma weld hwn ar safle 'Iaith' ar y gweplyfr a hynny gan Myrddin Williams, gynt o'r Gerlan - 'tywydd pryfoclyd', sef tywydd anwadal sy'n gawodydd a haul bob yn ail, yn arbennig pan llond lein o ddillad a rheini ddim yn sychu.

Ymadrodd arall a glywais oedd am un yn codi'n fuan - 'codi cyn fy sodlau'. Pwy sydd yn defnyddio hwn?

Mae pawb mae'n debyg yn gyfarwydd iawn gyda'r gair 'gwael' sydd yn golygu rhywun neu rywbeth sydd ddim yn dda. Mae gen i gof iddo gael ei ddefnyddio yn wahanol yn ein cartref ni ers talwm i gyfeirio at berson, fy nhad yn aml gan mam, neu fel arall hefyd, fel hyn "Nei di agor y drws i mi gwael?" Nid oeddwn wedi meddwl amdano ers talwm nes i mi ei weld yn ail dudalen nofel Alun Ffred 'Gwynt y Dwyrain'; "Fyse ti ddim yn agor y cyrtens, gwael?" Ydych neu oedda chi yn defnyddio 'gwael yn y modd yma.

Weithiau byddwn yn defnyddio geiriau gan gymeryd yn hollol ganiataol mai geiriau Cymraeg ydynt, ond o graffu nid dyna ydynt o gwbl. Dyna i chi'r gair orcloth. Dyma oedd y gorchudd a roddwyd ar loriau ers talwm cyn i bobl gael carpedi drwy'r stafell. Dau air Saesneg a gawn yma sef *oil* a *cloth*. A dyma un arall 'weirles' a dyma'r gair a ddefnyddiaf i



amlaf. Eto dau air Saesneg *wire* a *less*. Rywsut neu' gilydd ni dyciodd y gair 'diwifr', er bod 'radio' bellach yn cael ei ystyried yn air Cymraeg. Oes gennych chi adeilad bach o gwmpas eich drws ffrynt? 'Porticol' ydy hwn ynte neu efallai *porch*. Mae ychwanegu 'i' ar ei ddiwedd fel petai yn ei gymreigio.

**Diswyddo**

Pan fydd rhywun yn cael ei ddiswyddo, mae gynnon ni ymadroddion i fynegi hynny – "Mae hi wedi colli'i gwaith"; 'Mae o wedi cael ei hel o'i swydd"; "Mae o wedi cael ei gardia'"; "Mae o wedi cael mynd lawr y lôn"; "Mae hi wedi cael yr hwi"; "Mae o wedi cael hwth".

**Codi llais**

Bydd rhywun yn 'codi ei lais' er mwyn cael gwell gwrandawiad neu er mwyn rhoi cerydd. Pan fydd rhywun yn gweiddi siarad mi ddwedwn ni ei fod o neu hi yn siarad 'ar dop ei lais/ei llais' ac yn 'uchel ei gloch/ei chloch'. Er mwyn cael gwarad ohono fo neu hi, yr hyn a glywid fyddai 'Rho daw ar yr hyrdi-gyrdi 'na!', a 'Dos i'r stryd nesa, da ti!"

**Sgôr**

Mae sgôr mewn gêm, wrth gwrs, ond mae gynnon ni ddau 'sgôr' arall yn ein sgwrs.

Dyma'r cyntaf: Pan fyddwn ni'n syrthio neu'n taro yn erbyn rhywbeth caled a miniog, byddwn yn aml yn cael 'sgôr', sef y croen yn torri ac agor. Mi fyddwn ni'n dweud bod y croen 'wedi agor fel pennog' sy'n ei gymharu efo pysgodyn wedi ei agor yn llydan ar ei hyd ar gyfer ei llnau. Hefyd, mi ddwedwn ni ei fod 'wedi agor fel pwrs', sydd eto'n ddarlun da o'i gymharu efo geg pwrs yn agored. Os bydd y briw yn gwaedu'n arw mi ddwedwn ni fod o neu hi 'yn gwaedu fel mochyn', a bod yn briw yn 'stillo gwaedu' (o 'pistyllo') Ac o sôn am waed, yr hyn fyddwn ni'n ei ddweud am waed gwythïen fawr – gwaed rhydweli (*artery*) – ydi 'gwaed du' am fod ei gochni'n dywyllach na gwaed gwythïen gyffredin (*vein*).

Y 'sgôr' arall sy gynnon ni ydi cael sgwrs. Roedd pobol yn arfer dweud wrth ffrind, "Mi ddo' i draw am sgôr nos yfory", hynny ydi i gael sgwrs a 'rhoi'r byd yn ei le.'

Dyna ni tan y mis nesaf. Cofiwch gysylltu gydag unrhyw gyfraniadau i mi;


Mary Jones,
42 Erw Las
Bethesda LL57 3NN
maryeds@hotmail.co.uk
Ffôn: 07443047642


# YSGOL BODFEURIG

A hithau'n ddechrau blwyddyn ysgol newydd, dyma gyfle i edrych yn ôl ar ddiwedd blwyddyn prysur iawn yn Ysgol Bodfeurig!

**Ffarwelio a chroeso**

Mae diwrnod olaf tymor yr haf yn gyfle i ffarwelio – eleni roeddem yn ffarwelio gyda criw o blant arbennig Bl.6 wrth iddynt symyd ymlaen i'r uwchradd ond yn ogystal â hyn, roeddem yn ffawelio gyda'n prifathrawes Mrs. Lliwen Jones. Rydym yn dymuno'r gorau iddi wrth iddi symyd ymlaen i'w swydd newydd.
Gyda blwyddyn ysgol newydd yn dechrau, braf yw croesawu aelodau newydd i deulu Bodfeurig. Croeso mawr i bob plentyn newydd sydd yn dechrau gyda ni a chroeso hefyd i Mr. Gareth Edwards sy'n ymuno gyda ni fel Pennaeth! Pob lwc i chi gyd!

**Ymweliadau diwedd tymor**

Bu pob dosbarth ar ymweliadau gwerth chweil ar ddiwedd y tymor. Aeth dosbarth Ogwen ar ddiwrnod llawn antur ym Mhlas Menai –



roedd cyfle i gymeryd rhan mewn llawer o weithgareddau ar y dŵr, cyn cael neidio i mewn i'r Fenai i orffen!

Yn debyg i'r ymweliad â Phlas Menai, roedd llawer o ddŵr ar ymweliad dosbarth Idwal a Choed y Sipsiwn, ond y tro yma ar ffurf glaw trwm! Er gwaethaf y tywydd cafodd pawb ddiwrnod gwych yn chwarae, gweld yr anifeiliaid a mynd ar y tren!

**Partneriaeth Ogwen**

Mae tîm Partneriaeth Ogwen yn gyfarwydd iawn â'r ysgol bellach,

# Colofn Difyrion Digidol

## Deian ap Rhisiart

Fel rhywun sy'n gweithio yn y diwydiant treftadaeth a thwristiaeth, mae'n wych gweld gwefan newydd o'r enw crwydro.co.uk yn dod i fodolaeth i hyrwyddo ardal bwysig o Gymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Gan fod llawer o'n gwefannau ymwelwyr yn aml iawn trwy gyfrwng y Saesneg yn unig, a hynny yn benodol er mwyn denu ymwelwyr o du allan i Gymru, mae'n chwa o awyr iach gweld rhywun yn mynd yn erbyn y don. A chan fod yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ymweld â Boduan a Phen Llŷn ac Eifionydd eleni, mae'n amserol iawn i fwrw golwg ar y wefan hon sydd yn ein rhoi ar ben ffordd o ran hanes a diwylliant Pen Llŷn.

Mae Crwydro.co.uk wedi cael ei sefydlu "gan bobl leol sy'n frwdfrydig dros yr ardal, ei hiaith a'i diwylliant. Gan weithio gyda chynghorau sir a phlwyf, cawn ganllaw i'n hysbysu pa lwybrau sydd ar agor, a ble mae'r mannau o ddiddordeb.

"Rydym yn awyddus i ddangos i bobl leol ac ymwelwyr rhai o'r pethau yr ydym yn eu hystyried yn bwysig, ac i roi mewnwelediad dyfnach i bobl o hanes a diwylliant cyfoethog yr ardal tra maent yn cerdded ar hyd llwybrau sydd ymhlith y gorau yn y wlad."

Y mae ynddi gyfoeth o wybodaeth o bob cornel o Ben Llŷn, gyda gwahanol fathau o deithiau i gyfarfod anghenion pawb, o lwybrau cylchol, llwybrau llinynnol a llwybrau hygyrch sef llwybr yr arfordir.

Os edrychwn ar gylchdaith Garn Fadryn, ceir cyfarwyddiadau manwl am y daith ei hun, eglurhad o'r enwau lleooedd, llun a fideo trawiadol o'r olygfa ar hyd y ffordd a map o'r fryngaer ar y copa, pethau i'w gweld ar y daith megis Ffynnon y Brenin, cipolwg ar ffigwr hanesyddo lleol, y bardd Ieuan o Lŷn a gafodd ei fagu yng Ngharn Fadryn.

Y mae Pen Llŷn yn gyforiog o hanes, ac mae yna dros 21 o lwybrau cylchol a 9 o lwybrau llinynnol yn y tir a'r arfordir wedi cael eu cofnodi ar y wefan ac mae yna ôl ymchwil manwl ar bob taith. Ymhlith y rhain y mae Llwybr yr Arfordir a llwybr lleol y Morwyr sy'n dechrau yn nhref Nefyn. Ymhlith yr uchafbwyntiau gweledol a hanesyddol wrth gwrs yw Uwchmynydd a Phorthdinllaen.

Pan fyddwch yn ymweld â Phen Llŷn neu hyd yn oed wedi mynd ar wyliau yno, gwnewch yn fawr o'r ardal leol trwy fynd am dro ar hyd ei harfordir, a'i hafonydd a'i bryniau trawiadol. Cofiwch ddefnyddio'r wefan hon fel llawlyfr cynhwysfawr wrth droedio'r ardal, o ran hanes, diwylliant a'r iaith. Cadw'n iach a dysgu yr un pryd! A'r peth gwych yw fod y wefan yn addas i ffônau symudol!

Pam ddim cael gwefannau tebyg i hon ymhob rhan o Gymru? gan adrodd hanes ein gwlad trwy gyfrwng y Gymraeg a hynny ar gyfrwng digidol cyfredol, a'n bod i gyd yn gallu dysgu am ein hetifeddiaeth tra'n mwynhau'r awyr iach.

Os ydych eisiau cysylltu gyda mi am wybodaeth, cefnogaeth neu hyfforddiant yn y maes digidol, gallwch ebostio: deian.apRhisiart@cwmpas.coop


**CHRIS GRIFFITHS CYF**

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653



**SIOP OGWEN**

yn cynnig gwasanaeth


**CLIC A CHASGLU**

Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â'r siop ar yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**







wedi cynnal llawer o weithgareddau gyda ni ar hyd y flwyddyn. I orffen y flwyddyn cafwyd cyfle i greu podlediad gyda Phartneriaeth Ogwen a Gwyrdd Ni. Dysgodd pawb am waith pwysig y Clwb Bwyd, cyn sgriptio a recordio podlediad i adael i eraill wybod am y clwb. Roedd yn brofiad gwerthfawr oedd yn ein dysgu am ragor o'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud yn ein bro.


**GWERSI PIANO**

- Tiwtor Piano arbenigol, cyfeillgar, amyneddgar, cymwysedig a chanddo dros 40 mlynedd o brofiad hyfforddi.
- Prisiau rhesymol a thalu ar gychwyn bob gwers nid am wythnosau ymlaen llaw.
- Ni chodir tâl am absenoldeb oherwydd salwch.
- Rhiant neu ofalydd cyfrifol yn bresennol ym mhob gwers.
- Anogir bob disgybl i sefyll arholiadau'r Associated Board neu fwrdd arall mwy addas.
- Gwersi trwy gydol y flwyddyn yn ddewisol (yn cynnwys rhai gwyliau ysgol). Caniateir gwyliau ar unrhyw bryd arall trwy drefniant ymlaen llaw.
- Diheintir y Piano rhwng pob gwers.
- Ni dderbynir plant sy'n iau na 6 mlwydd oed.

Cysylltwch â: **Gerwyn Llwyd, FVCM, LWCMD,** ar Bethesda **01248 602901**

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Priodas**
Llongyfarchiadau i David Emlyn a Bethan Williams, 24 Ffordd Tanrhiw, ar achlysur eu priodas ym mis Gorffennaf. Croeso'n ôl adref wedi eu mis mêl yn Florida a Miami.

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau mawr i ieuenctid yr ardal am eu llwyddiannau yn eu arholiadau ysgol, a dymunwn y gorau iddynt i'r dyfodol. Cofiwch mai dim ond rhif ar bapur yw'r canlyniadau, a bod lle i bob un ohonoch yn y Gymru a'r byd sydd ohoni!

**Geni**
I David Florence a Mari ar enedigaeth eu mab, Jac Elis, ym mis Gorffennaf. Croeso hefyd iddynt i'w cartref newydd yn Ffordd Tanrhiw. Mae David yn fab i Tommy Florence a Diane, Pen y Ffriddoedd.

**Pen-blwydd Arbennig**
Dathlodd John Davies, Tanysgafell Isaf, ei ben-blwydd yn 90 oed ar Awst 16$^{eg}$. Gobeithio i chi fwynhau y parti pen-blwydd yng nghwmni teulu a ffrindiau. Pen-blwydd hapus, John!

**Gwellhad Buan**
Dymunai Val a Henry Hayward wellhad buan i Helena Hughes, Penybronydd, sydd newydd ddychwelyd gartref wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd a Eryri.

**Marwolaeth**
*Margaret Pritchard (Margaret Siop)*
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Margaret Pritchard, neu Margaret Siop i'w ffrindiau a phobol Tregarth; ar y 29$^{ain}$ o Orffennaf, gynt o 1 Ffordd Tanrhiw.

Priod y ddiweddar Gwylfa, Mam balch Janet, Lynette, Adrian a Gareth; Mam-yng-nghyfraith Derek, Glenda ac Olwen; Nain a Hen Nain annwyl.

Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair, Gelli, Tregarth, ar Awst 11$^{eg}$, gyda'r rhoddion er cof am Margaret yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

Buodd Margaret a'i diweddar ŵr, Gwylfa, yn gymwynaswyr annwyl a phoblogaidd yn Nhregarth. Cydymdeimlwn a'r teulu oll.

*David Hadfield*
Ar Fehefin 30$^{ain}$ yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon, Y Felinheli, bu farw David Walter Hadfield, gynt o'r Siop, Tregarth yn 85 oed. Gŵr y ddiweddar Cynthia; Tad Dean a Brett; a'u gwragedd Nia a Lindsey. Roedd yn Daid i Callum, Louis, Tilly, Byron a Mason. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar Orffennaf y 15$^{fed}$. Cofiwn yn annwyl am Dave a Cynthia am rai blynyddoedd yn cadw Siop y Pentref. Cydymdeimlwn a'r teulu oll.

*David O'Connor*
Ar Orffennaf 26$^{ain}$ yn Ysbyty Gwynedd ac yntau'n 79 mlwydd oed, bu farw David O'Connor, 7 Godre'r Parc, Sling. Cofiwn am ei briod Carys; ei ferched Sharon a Sioned; ei fab-yng-nghyfraith Neil; ei wyrion Erin, Hywyn a'r ddiweddar Dwynwen; a'i frawd Terence a'r diweddar Kevin. Cynhaliwyd gwasanaeth breifat yn y cartref ar Awst 14$^{eg}$, gyda gwasnaeth cyhoeddus i'w ddilyn ym Mynwent Eglwys St. Ann's, Bryn Eglwys. Cydymdeimlwn a'r teulu oll.

*R. Alun Evans*
Daeth y newyddion trist o Gaerdydd am farwolaeth R. Alun Evans, gynt o Nant yr Eira, Tal y Cae. Cofiwn yn arbennig am Alun yn bennaeth y BBC ym Mangor am rai blynyddoedd a chofiwn am ei hoffter mawr o bysgota yr Afon Ogwen. Cydymdeimlwn gyda Rhiannon, Rhys a Betsan a'r holl deulu.

**Cangen Merched y Wawr, Tregarth**
Ar Nos Lun y 3$^{ydd}$ o Orffennaf, cawsom ein gwadd i Derwen Gam, Tal y Cae, sef cartref Carol a Dewi am de mefus yn yr ardd. Hwn oedd ein cyfarfod olaf fel cangen cyn y seibiant dros wyliau'r haf.

Er y glaw mawr yn gynharach yn y dydd a phethau'n edrych yn o ddu, daeth yr haul allan mewn da bryd i ni gael mwynhau noson fach arbennig iawn. Cawsom wledd mewn mwy nag un ysytyr o'r gair- daeth wyrion Carol a Dewi draw o Llanfairtalhaiarn i'n diddannu. Canodd Brython a Rhyddid unawdau a deuawd fach hyfryd, gyda'u tad Trystan Lewis, yn cyfeilio ar y piano.

Roeddynt yn berffomwyr naturiol ac yn werth chweil gyda phawb wedi mwynhau gwrando arnynt - da iawn chi hogiau! Yn dilyn hyn cawsom fwynhau gwledd o ddanteithion blasus iawn ar y thema mefus ac ambell i lasiad hyfryd o brosecco. Braf oedd gweld cynifer o blatiau gwag ar y diwedd, a diolch i bob un a fu'n rhan o'r paratoi.

Prif bwrpas y te mefus oedd cyflwyno Cwpan Perthi i'r enillydd am y marciau uchaf yn ystod y flwyddyn. Braf oedd cael ail gynnal y gystadleuaeth eleni wedi'r cyfnod clo, a chafwyd ymateb da drwy'r flwyddyn gyda'r aelodau yn dod ag eitemau bach diddorol i'w harddangos a'u beirniadu.

Cafodd Carol y fraint o gyhoeddi'r canlyniadau, gyda'r 3$^{ydd}$ wobr yn mynd i Carol ei hun, yr 2$^{il}$ i Jên Morris, a'r safle 1$^{af}$ i'w mam, Margaret Jones. Llongyfarchiadau mawr iddi a braf oedd gweld y gwpan yn cael ei chyflwyno nôl i un o ferched Perthi.

Rhoddodd Jên ddiolch arbenning i Carol, a phawb fu'n rhan o'r paratoadau am noson fendigedig. Ategodd Myfanwy at hyn drwy ddiolch i Carol, Christine a Delyth am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn yn trefnu rhaglen ddifyr o weithgareddau i'r holl aelodau.

Bydd Merched y Wawr, Tregarth yn ail ddechrau ar Nos Lun, y 4$^{ydd}$ o Fedi, yn Festri Capel Sheiloh Newydd, am 7.30yh - noson i ddathlu a mwynhau talentau'r aelodau, boed yn waith gweu, gwnïo, crefft, arlunio a mwy. Edrychwn ymlaen i'ch gweld a chroeso mawr i aelodau newydd.

### Capel Shiloh Newydd

Wedi seibiant Mis Awst bydd yr oedfaon yn cychwyn Nos Sul, Medi'r 3$^{ydd}$, am 5 o'r gloch:

Medi 3$^{ydd}$: Eric Jones, Bangor
Medi 10$^{fed}$: Dr. Ian Morris
Medi 17$^{eg}$: Eurfryn Davies, Llandegfan
Medi 24$^{ain}$: Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Hydref 1$^{af}$: Philip Barnett, Swydd Efrog
Hydref 8$^{fed}$: Trefniant Lleol
Hydref 15$^{fed}$: Sul y Diolchgarwch
Hydref 16$^{eg}$: Gwasanaeth Diolchgarwch

Er nad oedd Oedfaon yn Shiloh ar hyd Mis Awst, mae'r capel wedi bod ar agor ar fore Gwener drwy'r Haf ar gyfer y 'Drws Agored'. Cofiwch alw mewn unrhyw dro am baned, sgwrs a chwmni.

Anfonwn ein cofion at un o flaenoriaid y capel, Wynne Roberts, Braich Talog; a ddathlodd ei ben-blwydd yn 95 ar Awst 24$^{ain}$ yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon, Y Felinheli. Cofion annwyl atoch Wynne.



**JOHN ROBERTS**

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

RHAN 11

**6 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

Y mis yma cawn hanes cynhebrwng Dr R. P. Roberts, Bethesda fel 'roedd yn ymddangos yn y newyddiaduron.

Mae Gwalia Mehefin 25, 1901, yn adrodd fel a ganlyn:

'Marwolaeth a Chladdedigaeth Dr. R. P. Roberts, M.R.C.S., L.S.A., Bethesda. Cymerodd marwolaeth y bonheddwr parchus hwn le yn ei breswylfod fore ddydd Llun, y 17eg cyfisol, yn 46ain mlwydd oed, wedi dioddef cystudd blin am amser maith. Rai misoedd yn ôl aeth i'r Iwerddon, lle yr oedd hinsawdd tynerech, a dechreuodd cyfnewidiad er gwell gymryd lle, fel y coleddid gobaith am adferiad. Ond siomwyd ni. Yr oedd yr hen elyn wedi hau ei hadau gwenwynllyd a marwol yn rhy ddwfn yn ei gyfansoddiad, a hynny er pan oedd ond ieuanc, fel y clywsom ef yn dweud; ac er gwaethaf pob moddion celfyddyd meddygol, bu farw, fel y crybwyllwyd uchod. Mab ydoedd i'r diweddar fferyllydd enwog ac adnabyddus, Mr Meshach Roberts, Bangor. Yr oedd wedi ymddyrchafu i sefyllfa hynod barchus a phoblogaidd yn Bethesda, a byddai yn cymryd rhan flaenllaw gyda phrif symudiadau y gymdogaeth. Cymerodd ran bwysig yn nglyn ag addysg y lle, ac yr oedd yn aelod o fwrdd llywodraethol yr Ysgol Ganolradd. Yr oedd hefyd yn aelod o'r Cyngor Dinesig, a bu yn llanw y swyddi o lywydd ac is-lywydd y Cyngor. Efe hefyd oedd meddyg plwyfi Llandegai a Llanllechid, fel cydrhwng y cwbl, bydd yma fwlch i'w deimlo ar ei ôl am amser. Mae wedi gadael priod ac un mab i deimlo colled fawr ar ei ôl priod a thad caredig a gofalus. Cymerodd ei angladd le am un-ar-ddeg o'r gloch bore ddydd Iau – cynhebrwng cyhoeddus i feibion yn unig – ac yr oedd yn un o'r rhai mwyaf parchus a hardd. Gwasanaethwyd wrth y tŷ gan y Parch R. Williams, M.A., Llanllechid. Yr oedd prif fasnachwyr, etc., yn gwneud i fyny yr orymdaith, a chynrychiolid y Cyngor Dinesig a bwrdd llywodraethol yr Ysgol Ganolradd gan y boneddigion canlynol:- Mri D. Griffith Davies, cyfreithiwr; Henry Roberts, Metropolitan Bank; D .J. Williams, M.A.., Prifathraw; E. D. Lloyd, R.A.M., Griffith Roberts, Lorne House; J. Hughes, Cloth Hall, ac E. Williams, Coetmor Farm. Cychwynnodd yr orymdaith i Fangor lle y dodwyd y corff i orffwys yn Nghladdfa Glanadda, yn y drefn canlynol: - Cerbyd cyntaf yn cynnwys Dr Pritchard, Bethesda, a'r Parch R. Williams, Llanllechid. Yn nesaf yr elor-gerbyd, yn cael ei dilyn gan gerbyd y diweddar feddyg gyda'i gerbydwr. Yn y pedwerydd yr oedd Master Ffrancon Roberts (mab) Mri D. O. Roberts (brawd), J. Lloyd Price, Treffynon (brawd-yn-nghyfraith), a J. R. Jones, Lerpwl (cefnder). Pumed cerbyd: Dr. H. Jones Roberts, Penygroes; Mri D. Griffith Davies, Hengoed; John Hughes, Cloth Hall; Griffith Jones, Pant, Bethesda; ac Edward Williams, Coetmor Farm. Chweched cerbyd: Y Parch R. T. Jones, B.A.., ficar Glanogwen; Dr. Jenkyn Lloyd, B.M., a Dr Griffiths, Bethesda. Seithfed cerbyd: Mri Owen G Thomas, peintiwr, High-street; Elias Jones, Penybryn; John O. Williams, eto; J. D. Pritchard, eto, a J.L. Griffiths, eto; ac yn dilyn y dorf. Wedi cyrraedd Coleg y Gogledd, Bangor, cyfarwyddwyd hwy gan nifer 'luosog o feddygon, cyfreithwyr, a masnachwyr y ddinas y rhai a flaenorodd yr orymdaith. Yn eu plith mewn cerbyd, yr oedd Mr R. H. Pritchard, clerc y Cyngor a chefnder i'r ymadawedig, gyda Mr J. E. Roberts, y cyn-faer. Wedi cyrraedd y ddinas dangoswyd y parch mwyaf i weddillion eu hen gyn ddinesydd, drwy i'r holl fasnachwyr, etc., dynnu gorchudd dros eu ffenestri. Wedi cyrraedd y gladdfa, gwasanaethwyd gan y Parch T. J. Wheldon. B.A., Bangor; ac wrth y bedd gan y Parch R. Williams, Llanllechid. Yr oedd yr arch yn un hynod o hardd, wedi ei gwneuthur o dderw caboledig, a'i "bras-mountio," ac o wneuthuriad Mr J. D. Pritchard, Penybryn. Yr oedd wedi ei gorchuddio a phleth-dorchau, etc., ac yn argraphedig arni :- Ganwyd, Hydref 15fed, 1855; marw, Mefefin 17eg, 1901. Arolygwyd yr holl trefniadau gan Mr John Hughes, Cloth Hall.'



Wythnos yn ddiweddarach mae hysbysiad yn ymddangos yn yr un papur o dan y pennawd 'Bethesda, 'A VACANCY – The Chief Inspector of Factories gives notice that, in consequence of the death of Dr Pritchard Roberts, an appointment as certifying surgeon under the Factory Acts at Bethesda, is vacant.'

Yn Gwalia Gorffennaf, 8fed 1902 tud.8 mae'r adroddiad a ganlyn yn ymddangos: 'Llwyddiant Ysgolor Ieuanc – Deallwn fod Master Ffrancon Roberts, unig fab i'r diweddar feddyg Dr. R. Pritchard Roberts, Ogwen-terrace, wedi ennill, yr wythnos ddiweddaf, y "First-class Council exhibition" yn Epsom College. Er nad yw ond ieuanc mae llawer o ragoriaethau y dysgedig yn perthyn iddo yn barod. Dymunwn pob rhwyddineb a llwyddiant i'r bonheddwr ieuanc yn y dyfodol.'

Bu i'r hysbysiad yma ymddangos yn Yr Herald Cymraeg, Mehefin, 1903: 'PRITCHARD – ROBERTS – Mehefin 1, trwy drwydded, yn Nghapel Llanllechid, gan y Parch Robert Williams, M.A. yn mhresenoldeb Mr D. Griffith Davies (cyfreithiwr), cofrestrydd, Bethesda, Dr William Griffith Pritchard a Mrs Margaret Elizabeth Roberts, Ogwen-terrace, Bethesda. (gwraig y diweddar Dr. Roberts).'

Mae adroddiad arall yn ymddangos yn y North Wales Express ym 1903, lle mae Ffrancon yn cael ei enwi. Priodas Major H. Jones-Roberts a Miss E. M. Jones, 'Monfa' Merton Road, Bootle. Yn rhoi anrheg i'r pâr 'Dr and Mrs W. G. Pritchard, Bethesda, case silver tea knives; Mr Ffrancon Roberts, do., silver and ivory paper knife.'

Yng nghyfrifiad 1911, mae Dr William Griffith Pritchard, yn cael ei enwi fel pen teulu, gyda Margaret Elizabeth, yn wraig iddo, gydag un forwyn ac un gogyddes yno hefyd. Sophie Roberts o Fethesda oedd y forwyn ac roedd hi yn 24 oed, gyda Mary Edwards y gogyddes yn 39 oed, a hithau yn enedigol o Bethesda. Nodir bod William a Margaret wedi priodi ers 9 mlynedd.

Ym mhapur newydd Y Clorianydd Mehefin, 30, 1910 cawn hanes llwyddiant Ffrancon yn y coleg. 'LLWYDDIANT.- Llwyddodd Mr John Jarvis, mab Mr Thomas Jarvis, athraw Ysgol y Gerlan, i ennill y gradd o B.A. yn Ngholeg Llanbedr. Mae yn paratoi ei hun ar gyfer gyrfa cymryd urddau. Hefyd mae Mr Ffrancon Roberts, Ogwen Terrace, wedi graddio yn B.A. yn Mhrif-ysgol Caergrawnt gyda anrhydedd y Dosbarth Cyntaf yn Adran Ail y Natural Sciences Tripos, ac wedi enill gwobr o £20 gan y Coleg. Perthyn i Goleg Clare. Enilliodd First class yn y rhan 1 o'r un arholiad y llynedd, felly mae wedi ennill dau First class mewn tair blynedd.'

# CHWILAIR

## CYNNYRCH O'R ARDD

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | P | A | N | A | S | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B |
| H | X | T | A | T | W | S | J | P | U | S | U | I | S | V | S | H | E | I | M |
| G | V | H | M | D | W | H | U | B | Z | M | X | V | A | D | D | N | A | P | A |
| U | Q | U | S | O | F | R | R | P | M | E | I | P | E | N | Y | Q | Z | G | R |
| H | C | U | M | W | N | E | L | O | Y | R | I | A | S | Z | U | T | F | D | X |
| U | P | W | R | H | S | C | Q | E | H | W | E | H | O | Y | E | E | G | E | O |
| M | H | E | P | Y | T | T | C | B | T | B | C | U | U | J | P | L | T | M | I |
| V | V | D | C | C | B | B | F | R | F | Y | O | G | J | V | I | I | R | R | X |
| I | M | H | H | T | T | O | S | K | O | P | S | W | R | C | M | K | C | B | O |
| R | C | X | V | R | Y | H | S | T | M | R | E | F | Y | J | D | Z | H | B | C |
| W | O | S | C | R | A | I | X | N | I | L | X | J | J | M | B | W | T | E | X |
| M | D | X | K | F | U | P | C | Q | Y | O | I | L | F | E | R | Z | Q | R | O |
| C | T | D | G | W | S | L | Z | E | B | E | A | J | K | J | C | L | N | L | R |
| V | O | G | J | P | W | P | N | N | G | S | O | W | J | J | Q | U | L | F | S |
| V | T | X | E | U | G | Y | A | H | S | L | Z | E | A | F | X | I | W | T | Z |
| H | K | V | A | G | N | D | B | **F** | **F** | **A** | **D** | **R** | **I** | **N** | **G** | **O** | N | K | A |
| D | A | S | I | O | W | K | O | G | D | H | B | S | I | U | R | O | X | A | G |
| X | F | R | I | R | A | E | E | K | M | O | R | O | N | K | D | A | N | T | O |
| G | F | N | W | B | M | B | E | T | I | S | B | J | R | F | U | N | K | B | Z |
| E | W | B | B | C | U | Y | C | F | T | Z | M | A | P | U | X | N | R | Z | T |

Yn y Chwilair mis yma dim ond UNARDDEG GAIR SYDD I CHWI EU DARGANFOD, gan fod FFA a FFA DRINGO wedi ei ddangos fel un cynyrch. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 27 Medi . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y cyfan, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Mae fy niolch yn fawr iawn i Alan Davies, Porthaethwy, am anfon y testun ar gyfer mis Medi. Nid oes cyn gymaint o bwysau arnaf i ddod o hyd i destun wrth dderbyn awgrymiadau ar gyfer y Chwilair.

Falch iawn o dderbyn eich atebion Dilys A. Pritchard-Jones, ar ôl bwlch o rhai misoedd. Efallai bydd cynnyrch o'r ardd yn apelio yn fwy i'r nifer a fethodd ddarganfod safleoedd oes yr haearn.

**Dyma atebion Chwilair Gorffennaf:-** Aber; Aberdaron; Beddgelert; Betws y Coed; Boduan; Bryn Croes; Clynnog; Conwy; Dwygyfylchi; Edern; Llandygai; Llanllechid.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:-**
Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Doris Shaw, Bethesda; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Eirwen Owen, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Elizabeth Buckley, Tregarth; Judith Hughes, Llangoed; Gwen Davies, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch.

**Enillydd Gorffennaf oedd:-** Judith Hughes, Wenallt, Llangoed, Ynys Môn.

# Natur o'n Cwmpas

# Lliwiau Aeddfed Medi



Daeth mis arall, ac un nodedig ydyw hefyd. Dyma englyn Gwilym R. Tilsley iddo:

Mis y cnau, mis cynhaeaf, mis gwair rhos.
Mis y grawn melynaf;
Mis gwiw cyn gormes gaeaf,
Mis liw'r aur, mis ola'r haf.

Wrth gwrs, cafodd y mis ei enw oherwydd mai dyma adeg y medi, sef cynhaeaf y cnydau, ac mae'r lleuad Fedi yn nodwedd ohono. Cafodd y lleuad Fedi ei henw arall, sef lleuad naw nos olau, am ei bod yn codi yr un amser am nifer dda o nosweithiau. Cyfle ychwanegol i'r amaethwyr gael y grawn i'r ysgubor. Eleni, bydd lleuad Fedi lawn i'w gweld yn union wedi'r machlud ddydd Iau yr 28ain. Fel hyn y darluniodd Eifion Wyn hi yn ei gerdd i'r mis yn 'Telynegion y Misoedd':

Tlws yw'th loergan ar y môr,
Yn ymsymud ar y tonnau,
Tlws yw'th loergan ar y maes
Ym mhriodas yr ysgubau.

Hyd yma, beth bynnag, cawn yn aml ychydig ddyddiau braf yn ystod mis Medi. Yr enw ar y cyfnod sych a chynnes hwn yw Haf Bach Mihangel oherwydd mae Gŵyl Mihangel a'r Holl Angylion ar y 29ain o'r mis. A throi at waith bardd arall, Dic Jones, fel hyn yr agorodd o ei awdl i'r 'Cynhaeaf', gan ddarlunio dail y coed yn dechrau troi'n felyn a'r dyrnwr wedi cwblhau ei waith yng nghae'r ŷd:

Coed Mihangel yn felyn,
A niwl glas yng nghil y glyn,
A'r dyrnwr draw'n ara' drên,
O hir ruo'i orawen,
I wyll hwyr yn ymbellhau
Ar drafael yr hydrefau,
A reilwe us ar y lôn
Yn blaen lle bu'i olwynion.

Do, fe dynnodd sawl bardd sawl darlun cofiadwy mewn geiriau wrth ymateb i'r mis yma. Dyma Eifion Wyn eto, yn cyfeirio at ffrwyth y coed a'r llwyni yn eu haeddfedrwydd, at yr adeg 'Pan fo'n mwyar ar y llwyni, / Pan fo'r cnau'n melynu'r cyll'.

Dotiai hefyd at flodau'r grug yn eu hanterth ar lechweddau'r mynyddoedd – 'Mis y porffor ar y ffriddoedd'. Fo biau'r englyn enwog iddynt, ac ynddo mae'n eu gweld fel gemau hardd yn siglo yn yr awel mewn lleoliad sydd yn llygad yr haul; fel clychau'n hongian mewn man creigiog ar lethrau; fel pe baent yn perthyn i'r creigiau eu hunain (main = meini); ac fel cwpanau'n dal y neithdar i'r gwenyn ei gasglu i wneud mêl:

Tlws eu tw', liaws tawel, - gemau teg
Gwmwd haul ac awel;
Grog glychau'r creigle uchel,
Fflur y main, ffiolau'r mêl.

Mae cymaint i'w ddweud am y mis hwn ond bodlonwn am y tro ar argraffiadau rhai o'n beirdd.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at: Ieuan Wyn, Talgarreg, 85 Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG, ieuanwyn01@gmail.com, 01248 600297.*


CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi


DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com


Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar
**@Llais_Ogwan**

# Nyth y Gân



### CEILIOG FFESANT

On'd ydyw yn odidog i lawer
   Â'i liwiau blodeuog?
Ac elwa wna'r hen geiliog
Yn y glyn â ffasiwn glog.

### HEN CHWARELWR

O ben y drws o'i gadair
Bu'n edrych tua'r nen
Yn meddwl am y llechi
Yn do mor glyd uwchben.

Atgofion ddaeth i'w feddwl
Am forthwyl fu'n ei law,
Am ebill, rhaff a chynion
A chaled waith y rhaw.

Dal yma mae'r hen chwarel
A'r rwbel wrth ei thraed
Lle gynt y tynnwyd plygion
Y meini welodd waed.

### Y CWM

Garw fynyddig erwau, a rhedyn
   Ar hyd y llechweddau;
Afonydd a hen fannau
Yma i ni eu mwynhau.

### DAWNS Y GLOCSEN

(ar ôl gwylio'r Eisteddfod)

Sŵn y glec sy'n y glocsen, a honno
   Yn hanu o'r wernen;
'Stumiau praff y gwadnau pren
Sy'n lliwio'r ddawns yn llawen.

**Dafydd Morris**

Dilynwch Llais Ogwan ar
**www.llaisogwan.com**

## Fandaliaeth ar y Llwybr Llechi

Mae Llwybr Llechi Eryri yn llwybr cerdded 83 milltir o hyd drwy hen bentrefi llechi gogledd Eryri. Fe'i crëwyd gan wirfoddolwyr fel cynnyrch twristiaeth cynaliadwy sy'n dod ag arian i'r pentrefi hynny, er budd mentrau cymdeithasol megis Caffi Coed y Brenin ym Methesda, hwb cymunedol Y Fron a thafarn cymunedol y Pengwern yn Llan Ffestiniog. Mae hefyd yn dod â chwsmeriaid i fusnesau bach fel Lodge Dinorwig a chaffi Tŷ Mawr yn Rhyd Ddu.

Mae un o rannau gwylltaf y Llwybr ar draws Gwaun Gynfi, uwchben Mynydd Llandegai. Er mwyn helpu i dywys cerddwyr ar draws y rhostir anghyfannedd hwn, gosododd gwirfoddolwyr o'r Cerddwyr nifer o gyfeirbyst.

Rywbryd ym mis Mehefin, tynnwyd nifer o'r pyst hyn i lawr a'u dileu gan bobl anhysbys. Cawsant eu disodli gyda chymorth Y Cerddwyr a Chyngor Gwynedd. Chwe wythnos yn ddiweddarach, ym mis Awst, cafodd pedwar postyn arall eu dwyn, gan adael y gwirfoddolwyr gyda'r



broblem rhwystredig o sut i dywys cerddwyr yn ddiogel ar draws y rhos.

Mae'n ymddangos nad yw lladrad y pyst hyn yn ganlyniad i fandaliaeth gan bobl ifanc gan fod y pyst trymion wedi cael eu symud oddi ar y rhos. Mae hyn yn dangos bod gan y lleidr gludiant, fel cerbyd gyriant 4-olwyn neu gerbyd cwad.

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried pa gamau i'w cymryd, ac mae Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri yn apelio am unrhyw wybodaeth sy'n arwain at ddychwelyd y pyst.

**Aled Owen**
Ymddiriedolwr Llwybr Llechi Eryri

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk
ECA

**Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen** Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

## Mynydd Llandygai

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i bawb yn y pentref sydd wedi eistedd arholiadau yr haf yma, a phob lwc at y dyfodol.

Hoffem longyfarch Ifan Rhys Cooke, Cwm Hyfryd ar ei radd ym Mhrifysgol Salford mewn Technoleg Cerdd. Pob lwc i'r dyfodol yn dy yrfa.

**Ras y Mynydd**
Hoffem longyfarch y tîm a drefnodd Ras y Mynydd flwyddyn yma. Bu llawer or pentref yn cystadlu ynghyd â rhai o bell.

**Clwb Hanner Cant Mynwent St. Anns, Mynydd Llandygâi**
Ar ran pwyllgor Cynnal a Chadw Fynwent St Anns, Mynydd Llandegai. Diolch am gefnogi 'Clwb Hanner Cant' y fynwent.

Mae'r £12 am y flwyddyn yn ail ddechrau mis Awst. Bydd gwobr o ddeg punt y mis.

I ymuno/neu barhau â'r Clwb, gofynnwn i chi anfon siec am £12, wedi ei wneud allan i: '*St. Anns Churchyard Account*'

A'i yrru i'r cyfeiriad isod os gwelwch yn dda?

Os hoffwch dalu yn syth i bank, gyrrwch neges drwy *Facebook Messenger*, E-bost neu ffôn, a mi yrrai'r manylion draw:

Lynda Owen, 2, Bryniau Terrace,
Mynydd Llandygâi, Bangor, Gwynedd
LL57 4BJ
Ffôn: 01248 601739
E-bost: menaiwindowsltd@gmail.com
E-bost: info@snowdoniaslatetrail.org

## Cynllun rhannu gwisgoedd Ysgol Hwb Ogwen

Rydym yn hynod o ddiolchgar i bawb wnaeth ein cefnogi eleni gyda'r cynllun gwisgoedd ysgol.

Dechreuwyd y cynllun wrth ddarparu biniau casglu gwisgoedd yn 6 o'r ysgolion lleol i bobl allu rhoi eu hen wisgoedd at yr achos. Ar ôl i'r ysgolion gau, symudwyd y biniau casglu i 4 ardal cyhoeddus – Plas Ffrancon, Llyfrgell Bethesda, Swyddfa Dyffryn Gwyrdd a Chanolfan Tregarth.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr wnaeth gymryd rhan yn y cynllun. Fe wnaeth 9 o wirfoddolwyr ein helpu i olchi'r dillad ar gyfer dosbarthu.

Cynhaliwyd ein sesiwn rhannu cyntaf ar Awst 8fed o 12-7yh yng Nghanolfan Cefnfaes, gyda 58 yn mynychu'r sesiwn. Gan fod galw sylweddol am y dillad, penderfynwyd cynnal ail sesiwn rhannu yno, gan gynnal yr ail sesiwn ar Awst y 29ain, gyda 83 yn mynychu'r sesiwn.

Rhwng y ddwy sesiwn a'r ymholiadau ychwanegol, rydym wedi rhannu gwisgoedd i 156 o drigolion Dyffryn Ogwen. Mae hyn yn golygu ein bod wedi arbed bron i £14,000 i drigolion y Dyffryn a wedi cyfrannu at ethos gwyrdd y Dyffryn. Byddwn yn cynnal sesiwn arall eto, maes o law – mae'n debyg yn ystod hanner tymor Chwefror. Cysylltwch gyda Marie neu Anna am ragor o wybodaeth – marie@ogwen.org neu anna@ogwen.org



# Gair neu ddau
John Pritchard

## Y car cebl

Ar y pryd, feddyliais i ddim mwy amdano. Do, mi glywais ar y radio rywbeth am gar cebl mewn trafferthion. Ond chymerais i fawr o sylw o'r adroddiadau ac roedd y cyfan drosodd erbyn i mi ddeall beth a ddigwyddodd ac ym mhle. A diolch am hynny, diwedd hapus a gafwyd yng ngogledd Pacistan un dydd Mawrth ganol Awst.

Yn niffyg ffyrdd hwylus, mae myrdd o geir ceblau tebyg yn cysylltu cymunedau gwledig â'i gilydd gan groesi dyffrynnoedd a llynnoedd ac afonydd. Ar droed, mae dwyawr o daith rhwng Jangri a Batangi, ond dim ond pedwar munud gymer y car cebl i groesi o'r naill le i'r llall. Oherwydd hynny, y car cebl yw llwybr plant Jangri i'r ysgol ym Matangi. Ond roedd un olwg ar y car yn hongian gannoedd o droedfeddi uwch y ddaear yn awgrymu nad dyma'r filltir fwyaf diogel dan haul. Digon tila oedd drws y car – os gellid ei alw'n ddrws o gwbl. Y bore Mawrth hwnnw, torrodd un o'r rhaffau a ddaliai'r car wrth y cebl, a gadawyd chwech o blant a dau oedolyn mewn perygl einioes. Yno y buont am oriau â'r car mewn peryg o syrthio i'r llawr, a theuluoedd a chymdogion yn gwbl analluog i wneud dim i'w helpu. Ond diolch i ymdrechion milwyr a thimau achub llwyddwyd i ddod a'r wyth i ddiogelwch wedi rhai oriau trwy gyfuniad o hofrennydd a weiren sip.


Un o ddelweddau cofiadwy'r digwyddiad dramatig hwn oedd yr un o'r oedolyn yn lledorwedd ar draws drws agored y car cebl yn y gobaith o arbed yr un o'r plant rhag syrthio trwyddo. Roedd yr olygfa honno'n f'atgoffa o'r hyn a ddywedodd Iesu Grist amdano'i hun unwaith. Wrth sôn amdano'i hun fel y 'Bugail Da' (yn Ioan 10), meddai Iesu hefyd, 'Myfi yw drws y defaid ... os daw rhywun i mewn trwof fi, caiff ei gadw'n ddiogel, caiff fynd i mewn ac allan, a dod o hyd i borfa' (10:7-9). Trwy Iesu'r drws y down ni'r defaid i ddiogelwch y gorlan. Trwy Iesu'r drws hefyd y profwn bob maeth ysbrydol.

Ond wrth ei alw ei hun yn fugail ac yn ddrws, nid cyfuno dwy ddelwedd ddigyswllt a wna Iesu. Mae bugail da, meddai, yn gwarchod ei ddefaid; ac un ffordd o wneud hynny fyddai gorwedd ar draws drws agored y gorlan er mwyn sicrhau na ddeuai na blaidd na lleidr i darfu arnyn nhw. Mor brydferth y ddelwedd o'n Gwaredwr yntau'n gweithredu fel drws i'n hamddiffyn ninnau rhag pob math o fygythiadau. Y fath gysur yw'r darlun ohono bob amser yn effro i'n gwarchod rhag popeth sy'n bygwth ein niweidio a'n tynnu o'i afael.

**DIOLCH**
Diolch yn fawr iawn i aelodau a chyfeillion Capel Bethlehem, Talybont a Chapel Carmel, Llanllechid am eu dymuniadau da a'u rhoddion hael wrth i mi ymddeol o fod yn weinidog i'r ddwy eglwys Ynyd ag eglwysi eraill Gofalaeth Fro'r Llechen Las ddiwedd Awst. Gwerthfawrogaf y cyfan yn fawr iawn. Bu'n fraint gwasanaethu'r ddwy eglwys ers dechrau Ionawr 2015. Gwerthfawrogaf hefyd y cyfle i barhau i gyfrannu'r golofn hon yn fisol i Llais Ogwan. – *John Pritchard*



# CROESAIR



## AR DRAWS

1 Nid y rhain (4)
5 Rhoi'r uned yn ôl er mwyn hudo (4)
7 Yn gyntaf neu ail ânt a'r negeseuon i ben eu taith (7)
8 Dolennau metel cysylltiedig fel rhaffau cryfion (8)
10 Erchwyn (4)
12 Mae'r ganmoliaeth mewn pinacl o deyrnged (4)
14 Eglurhad fel mewn llyfr crefyddol ers talwm (8)
16 Araith gyhoeddus (8)
17 Merch aiff yn ôl i gael clogyn am ei hysgwyddau (4)
18 Israeliad yn mynd i weddi wrth ddychwelyd i'r deml (4)
19 Darnau hirion o ffilm (8)
22 Tirlithriad neu gwymp eira (7)
23 Ysfa gref (4)
24 Heriog wrth fod yn groes neu'n erbyn (4)

## I LAWR

1 Mae'n fab ifanc o Lŷn; oes ganddo gariad? (4)
2 Papur bro 1 I Lawr (4)
3 Edrych fel y gallai 1 I Lawr fod ynghanol dillad gwlâu (8)
4 Rhoi brws a mop a chadach ar waith yn llafar (4)
5 Un y gallwch ymddiried ynddo'n llwyr (8)
6 Pawb yn gytûn (4)
9 Troi a throsi a gwingo (7)
11 "- - - - - - - Pellennig" Côr Meibion Llanelli (1,6)
13 Dengys ei fod wedi gwaethygu (8)
15 Offeryn mewn pentref yn ne orllewin yr ynys efallai (8)
18 Sefydlydd yr Urdd (4)
19 Fel 17 Ar Draws roedd gan hon un enwog mewn lle cysegredig (4)
20 "Gwlad y - - - -", ar y ffin rhwng Sbaen a Ffrainc (4)
21 "Cenedl heb - - - - , cenedl heb galon" dihareb(4)

Atebion erbyn 6ed Hydref 2023 **fan bellaf** *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Medi', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD



## ATEBION CROESAIR GORFFENNAF/ AWST 2023

**AR DRAWS** 7 Gorsedd, 8 Gwewyr, 9 Clyd, 11 Ros, 12 Lloyd, 15 Organ, 17 Afrosgo, 19 Seminar, 21 Cegin, 24 Neon, 27 Efa, 28 Yn Dy, 30 Meudwy, 31 Dryllio

**I LAWR** 1 Moel, 2 Isod, 3 Addurn, 4 Agosaf, 5 Deall, 6 Fyny, 9 Cro, 10 Ymgomio, 13 Ocsigen, 14 Duo, 16 Nen, 17 Aer, 18 RAC, 19 Syn, 20 Angen Yw, 22 Nwy, 23 Mardi, 25 Eden, 26 Nadu, 28 Ymyl, 29 Deil

Un llithriad yn unig gafwyd, sef 'Ras' yn lle 'Ros' (11 Ar Draws). Dyma'r rhai anfonodd atebion hollol gywir: Dilys W. Griffith, Abergele; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch, Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Wendy Eccles, M. A. Jones, Llanllechid; Judith Hughes, Llangoed; Barbara Jones, Talybont; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gaynor Elis-Williams, Doris Shaw, Bethesda; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Iona Williams, Llanddulas; Huw a Gwenno, Gerlan

Aiff y wobr am yr ymgais hollol gywir gyntaf o'r het i Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont, Bangor, Gwynedd LL57 3YA. Llongyfarchiadau i chi.

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

**Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen**

Braf iawn oedd gweld Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen yn dychwelyd eleni yn dilyn bwlch o sawl blwyddyn. Bu cystadlu brwd a chafodd sawl un o drigolion Rhiwlas lwyddiant.

Daeth Nel Iolen Jones-Roberts yn fuddugol yn y gystadleuaeth ffotograffiaeth dan 14oed - llongyfarchiadau mawr Nel!



Yn ogystal, daeth Elfyn Jones-Roberts i'r brig mewn dwy gystadleuaeth, sef 'potelaid o jin (unrhyw ffrwyth)', a 'teisen Fictoria (cystadleuaeth y dynion)'.



Un arall o drigolion y pentref a gaeth lwyddiant oedd Wendy Lemon – hi ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth 'fflapjacs', a chafodd ail yn y gystadleuaeth 'ceuled lemon'.

Llongyfarchiadau mawr bawb!

**Dreigiau'r Dyffryn**

Fore dydd Sadwrn, $17^{eg}$ Mehefin, roedd cyffro mawr yn Stad Ddiwydiannol Coed y Parc, wrth i glwb gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn gynnal eu cystadleuaeth clwb blynyddol. Un a oedd yn cystadlu yn y categori dan 7 oed (lefel 2) oedd Nel Iolen Jones-Roberts. Daeth Nel yn gyntaf ar y gystadleuaeth 'vault' gan ennill medal aur. Daeth hefyd yn bedwerydd mewn dwy gystadleuaeth arall. Da iawn ti, Nel!

**Diffib Rhiwlas**

Nos Iau, $15^{fed}$ o Fehefin, cynhaliodd y grŵp 'Diffib Rhiwlas' helfa drysor ar olwynion er mwyn codi arian tuag at gael peiriant diffib ychwanegol i'r pentref. Cafwyd noson hwyliog, a chystadlu brwd rhwng y timau. Fe aeth ambell un ar goll, a roedd ambell un yn awyddus i orffen yn gyntaf....ond yn y diwedd daeth dau dîm i'r brig, a dau dîm yn rhannu yr run sgor yn yr ail safle!

Diolch i bawb am gymryd rhan, ac yn arbennig i Elwyn Jones ac Elfyn Jones-Roberts am drefnu.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Mrs. Gwen Williams, Bro Rhiwen. Bu farw ei chwaer hynaf, Beryl ym Mrynsiencyn, ond bu hi a'r teulu yn cadw becws yn Dwyran. Anfonwn ein cofion atoch i gyd.

Trist oedd clywed am farwolaeth y darlledwr R. Alun Evans yn 86 oed. 'Roedd yn awdur ac yn weinidog gyda'r Annibynwyr. Tra'n fyfyriwr yng Ngholeg Bala Bangor, byddai yn ymweld â Chapel Peniel yn rheolaidd, a bob amser yn rhoi cyfraniad i ni y plant. Roedd yn aml yn sôn am y croeso mawr a gafodd bob amser ym Mheniel.

**"Hogyn o Rhiwlas"**

Yn ddiweddar bu Owain Arthur ar raglen Heno yn sôn am ei waith diweddaraf. Mae ar hyn o bryd yn Lundain yn perfformio yn y sioe '*Guys and Dolls*'. Mae Owain bob amser yn cyfeirio ato'i hun mewn cyfweliadau fel "hogyn o Rhiwlas".

**Llongyfarchiadau**

Mae Osian, Bron y Waun, wedi derbyn canlyniadau da yn yr arholiad AS. Yn ogystal, mae o wedi llwyddo efo'i brawf gyrru ar y cynnig cyntaf. Pob hwyl i ti, Osian.

Mae nifer o bobl ifanc y pentref wedi derbyn canlyniadau ardderchog, llongyfarchiadau i chi gyd, gadewch i ni wybod eich hanes.

**Eisteddfod**

Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd – mae pawb o'r farn iddi fod yn llwyddiannus iawn. Diolch i S4C am y rhaglenni a gawsom.

**Croeso**

Mae'n braf gweld dau deulu ifanc yn ymgartrefu ym Mro Rhiwen. Mae Morgan, Harriett ac Ifan Huw wedi symud i 30, Bro Rhiwen, cyn gartref Taid a Nain.
Yn ogystal, mae Catrin, Siôn, Owie a Nanw wedi symud i rif 16, cyn gartref Nain a Thaid, Catrin. Mae'n braf iawn gweld rhai ifanc yn aros yn y pentref.

Mae Gwyn a'r teulu wedi dod o Canada am wyliau at ei rieni yn Erw Wen. Byddant yn sicr o gael croeso mawr gan Nain a Thaid, Linda a Melfyn. Mae Telyn, y ferch fach bellach, bron yn bedair oed. Roedd Catrin, Marcus, Nel a Tomi wrth eu bodd yn dod i adnabod eu cyfnither. Cawsant amser da iawn i gyd.
Cofion atoch i gyd, Iona

### Llwyddiant Rygbi

Mae'r pentref yn ymfalchio yn llwyddiannau ein pobl ifanc, a mis yma mi yda ni'n ymfalchio yn lwyddiant Dylan Alford, Caeau Gleision, a gafodd ei wahodd i ymarfer hefo carfan Rygbi Dan Ddeunaw Cymru yn Mharc yr Arfau, Caerdydd.

Mae Dylan yn un o 4 gafodd ei wahodd o garfan Rhanbarth Gogledd Cymru (RGC), sydd wedi bod yn chwarae rygbi yno ers dwy flynedd bellach, yn ogystal â aelod o Glwb Rygbi Bethesda ers oedd yn 10 oed.

Llongyfarchiadau mawr i ti Dylan, a phob lwc i'r dyfodol hefo'r Clwb, y Rhanbarth ac yn Genedaethol.






# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Pen-blwyddi Arbennig Iawn**
Pen-blwydd Hapus iawn i Mair Owen (Anti Mair), a ddathlodd ei phen-blwydd yn 100 oed ar yr 20fed o Awst.

Bu Mair yn Nyrs Ardal yn Nyffryn Ogwen am nifer helaeth o flynyddoedd.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd ac yn arbennig i Plas Ogwen am wneud ei diwrnod mor arbennig. Oddi wrth Ann, Sel a'r teulu.




Llongyfarchiadau calonnog i John Davies, Tanysgafell Isaf, ar ei ben-blwydd yn 90 oed ar y 16eg Awst. Mae'n dymuno diolch yn fawr i bawb am eu cyfarchion caredig ar yr achlysur, ac i bawb a ddaeth i'r parti dathlu yn y Clwb Criced a Bowlio, i'w gwneud yn noson i'w chofio.



## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhys ac Emily Cross ar achlysur eu priodas yn ystod yr haf. Cynhaliwyd y briodas yn Eglwys St. Peter's, Old Woking, Surrey ar Fehefin yr 2il. Mae Rhys gynt o Ffordd Ffrydlas. Cafwyd diwrnod i'w gofio gyda theulu a ffrindiau, rhai wedi dod o bell iawn. Dymunai pawb pob hapusrwydd i chi i'r dyfodol.

**Cartref Newydd**
Croeso cynnes i Carys i'w chartref newydd ym Maes y Garnedd.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Hannah Wyn Ellis, 2 Gwêl y Nant, ar lwyddo i gael 9A* ac 1A yn ei haroliadau TGAU. Oddi wrth Nain Rachub.

**Priodas Arian**
Llongyfarchiadau i Gerald a Karen Aston ar ddathlu ei priodas arian ar Awst y 29ain.

**Dymuniadau Gorau**
I Derek Griffiths (Derek TV) wedi ei lawdriniaeth i dderbyn clun newydd.

**Ysbyty**
Cofion a gwellhad buan i'r sawl fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef:- Irfon Hughes, Erw Las; John Williams, Y Bwthyn, Pant; Phyllis Williams, Adwy'r Nant; Aled Parry, Ffordd Ffrydlas; Vera Morgan, Maes y Garnedd; Frank Thomas, Llety'r Adar; Albert Humphreys, Stryd Cefnfaes a Thomas Jones, Rhos y Coed.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Arwel Llechid Owen, Pant, wedi iddo dderbyn llaw-driniaeth yn dilyn damwain.

**Geni**
Ganwyd efeilliaid i Ffion a Keith, sef mab a merch fach, Efan ac Anni. Llongyfarchiadau i chi fel teulu, yn cynnwys nain a taid Rhos y Nant a nain a thaid Hen Barc.

Llongyfarchiadau i Siân Rhys a Bleddyn Davies (Llanisien, Caerdydd) ar enedigaeth mab, Macsen Rhys, ar y 12fed o Orffennaf, ac i Nain a Taid, Colette a Kevin, 13 Rhes Gordon. Dymuniadau gorau i'r teulu.

Llongyfarchiadau i Gwenno a Siôn, Erw Las, ar enedigaeth merch fach Nela; fis Awst, hefyd i Nain a Taid, Paul a Sioned, Erw Las a Karen Roberts, Ciltrefnus. Dymuniadau gorau i chi.

**Diolch**
Dymunai Bryn a theulu y diweddar Rita Evans, 13 Erw Las, ddiolch am bob arwydd

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Enillwyr Clwb Cant mis Gorffennaf**:
£40: 155 – Tony Hanson
£20: 45 – Diane Hulme
£15: 95 – Barbara Owen

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis ar ôl y gwasanaeth; croeso cynnes i bawb. Bydd enillwyr Awst a Medi yn y rhifyn nesaf.
Atgoffir pawb bod taliadau'r Clwb Cant i'w talu erbyn diwedd mis Medi.

Cynhelir Bore Coffi at gynnal yr eglwys yng Nghanolfan y Cefnfaes fore Sadwrn, Medi 30ain.

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.
Mae sawl un wedi holi ynglyn a thalu trwy Drosglwyddiad Banc os yn methu dod i'r gwasanaethau. Rhif Cyfrif Glanogwen yn y Banc Natwest yw **51-61-28, 06306284.** Gellir gwneud un taliad neu sefydlu Taliad Sefydlog (Standing Order) ar gyfer bob mis neu unrhyw batrwm arall.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref. Hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl.

**Gwasanaethau**
Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.
Croeso cynnes fel arfer i bawb i'n holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.
Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ar gael ar 07967652981.



## Pedwar Ban Byd

Braf oedd croesawu Gwydion Temple Morris a Sioned Carran adra i'n plith dros yr haf. Cefnder a chyfneither, y naill o Ganada a'r llall o Seland Newydd. Roedd eich teulu yma ym Methesda yn hapus iawn i'ch gweld. Brysiwch nôl yn fuan!

o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth.

Diolch hefyd am y rhoddion er cof am Rita sydd wedi eu cyflwyno i gronfa mwynderau trigolion Plas Ogwen.

Diolch i'r Ficer, Sara Roberts, am gynnal y gwasanaeth yn Eglwys y Gelli, Tregarth, ac i Gareth Williams (Ymgymerwr) am ei drefniadau trylwyr.

**Cydymdeimlo**

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar :-

Gwen a Thomas Griffiths a'r teulu, Ffordd Ffrydlas. Collodd Gwen ei brawd, Charles Thomas o Benllech, ac yntau'n 90 mlwydd oed.

Teulu y ddiweddar Elizabeth Ann Hughes, gynt o'r Carneddi, chwaer Mair Olwen, Maes y Garnedd.

Mr. Allan Taylor, Maes y Garnedd, wedi colli ei frawd, Jeffrey Taylor, Bontuchaf.

Linda a'r teulu, Abercaseg, a Carys a'r teulu, Maes y Garnedd, wedi colli modryb, Margaret Pritchard o Dregarth.

**Marw**

*Joan Elizabeth Griffith*

Ar y $1^{af}$ o Orffennaf yn yr ysbyty, bu farw Joan Elizabeth Griffith, Glan Ffrydlas, yn 91 mlwydd oed. Priod y diweddar Gwilym, mam annwyl Sherryl a'r diweddar Stephen. Nain i Mirain a Glain, hen nain i Gruff a Llew a chwaer hoffus i Colin a'r teulu, Caernarfon. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor, ddydd Gwener, $14^{eg}$ Gorffennaf. Yn gwasanaethu oedd y Parchedig Sara Roberts, Eglwys Crist Glanogwen, ble bu Joan yn aelod ffyddlon. Cydymdeimlwn â ti, Sherryl a'r teulu.

*Jeffery Taylor*

Yn ei gartref ym Montuchaf ar 14 Gorffennaf, bu farw Jeffery Taylor yn 83 oed. Priod Maureen a thad Karen, Neville, Mark a Perrie, a thaid a hen daid. Bu ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Mawrth, $25^{ain}$ o Orffennaf. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

*Kathleen Maud Roberts*

Bu farw Kathleen Maud Roberts yn Ysbyty Eryri ar $31^{ain}$ Orffennaf. Roedd yn 92 mlwydd oed. Mam Jacqueline a'r diweddar Johnny, a nain, hen nain a modryb annwyl. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Gwener, $25^{ain}$ Awst. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd.

*Bedwyr Roberts*

Ar $31^{ain}$ Orffennaf, yn sydyn yn ei gartref yn Arafa Don, Stryd Fawr, bu farw Bedwyr Roberts yn 41 mlwydd oed. Mab annwyl Eurwen a'r diweddar Gwyn, tad Martha a ffrind Catherine. Hefyd yn frawd i Iestyn, Meirion a Seren. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mawrth, $15^{fed}$ Awst. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll.

**Marchnad Ogwen**

Yn anffodus nid ydym yn gallu cynnal Marchnad Ogwen ar hyn o bryd. Mae hyn oherwydd y gwaith sydd yn digwydd yn Neuadd Ogwen. Yn ôl Dilwyn Llwyd, rheolwr y Neuadd, bydd y gwaith drosodd erbyn canol Hydref.

Y gobaith mawr ydi ail gychwyn Marchnad Ogwen ym mis Tachwedd.

Felly croesi bysedd am Farchnad Tachwedd $11^{eg}$ a'r Farchnad Nadolig nos Fercher Tachwedd $22^{ain.}$ o 5 tan 8 o'r gloch.

Bydd y Farchnad ar yr ail Sadwrn o bob mis fel arfer o Ragfyr ymlaen.


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* · *Porthaethwy (01248) 719517* · *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* · *Pwllheli (01758) 703000)*



**J. TEMPLE MORRIS A'I FAB**

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
**07770 900531**
**01248 600282**
jtemplemorris@btinternet.com



BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

**01248 361044 a 07771 634195**



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS





**Llwyddiant**

***San Shou Kuan, Tregarth***

Llongyfarchiadau i aelodau dosbarth San Shou Kuan, Tregarth a gymerodd ran yng nghystadleuaeth Taolu yn Watford.

Enillodd Jake Fitzpatrick fedal aur yn yr adran hyn; Gethin Williams, Leah Roberts a Lee Williams fedal aur tîm Talou, ac roedd medal arian yn adran yr unigolion i Lee hefyd.

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**CANOLFAN CEFNFAES**
**Gyrfa Chwist**
Medi 26
Hydref 10, 24 a 31
am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

**CANOLFAN CEFNFAES**
**Bore Coffi**
Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen
Sadwrn, 16 Medi 10.00 – 12.00
Mynediad: £1.00

**CANOLFAN CEFNFAES**
**Bore Coffi**
Eglwys Crist
Glanogwen
Sadwrn, 30 Medi 10.00 – 12.00
Mynediad: £1.00

**FESTRI CARMEL**
Cynhelir
TE BACH
Dydd Llun,
25 Medi
2.30 – 4.00
Croeso i bawb.

**• CANOLFAN CEFNFAES •**
**Bore Coffi**
Eisteddfod Dyffryn Ogwen
Sadwrn, 14 Hydref
10.00 – 12.00
Mynediad: £1
Elw at Gynnal Eglwys Crist Glanogwen

**GŴYL AFON OGWEN**
23 – 24 Medi 2023
Capel Jerusalem
Parc Meurig
Clwb Criced a Bowlio
Llys Dafydd
Canolfan Cefnfaes

**Clwb Coffi Talybont**
YN FESTRI BETHLEHEM
Boreau Llun, 10.30 – 12.00
Medi 18, Hydref 2 a 16
Croeso cynnes i bawb

**JAMIAU CARTRA'**
**Neville ac Angharad Huws (Amrywiaeth ar gael rwan)**
Elw at Elusennau Lleol yn bennaf
(ffoniwch nhw ar 600853)

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid
Nos Fercher, Medi 27ain 2023 am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced
Bydd sgwrs gan
Dr. John Llywelyn Williams
**'Cynffonwyr Punt y Gynffon – Bethesda 1900-1903'**
CROESO CYNNES!

**FESTRI JERUSALEM**
**Bore Coffi**
Gofal Cancr Macmillan
Dydd Gwener, 29 Medi
10.00 – 12.00

## Chwarel y Penrhyn

Tynnwyd y llun yma o rai o'r swyddogion, cyn amser McAlpine. Credaf mai tua dechrau'r 60$^{au}$ pan oedd y chwarel ar "wythnos fer", pan fu raid i'r swyddogion fynd i mewn i wneud gwaith ychwanegol.
Dyma enwau'r rhai sydd yn y llun (o'r chwith i'r dde) :-

Glyn Williams, Mynydd Llandegai;
Tom Parry Jones, Adwy'r Nant;
Brinley Jones, Rhes Coetmor;
Ted Rowlands, Maes Bleddyn;
John Morris Davies, Mynydd Llandegai;
Arfon Roberts, Tregarth;
Dic Hughes, Bont Tŷ Gwyn.



Diolch i Dafydd Gwilym Jones, Pant Glas, Bethesda

# Llyfr Lliwgar Llawn Lluniau

**Yn cofnodi 21 o flynyddoedd**

**o weithgarwch amrywiol Clwb Dwylo Prysur**

**gyda ieuenctid Capel Carmel, Rachub.**




**Os am brynu copi cysylltwch â Helen Wyn Williams neu Marian Jones.**

## DYDDIADUR BOREAU COFFI

**2023**

16 Medi – Cefnfaes – Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

23 Medi – Festri Capel Jerusalem – Clwb Gorffwysfan

29 Medi – Festri Capel Jerusalem – MacMillan

30 Medi – Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen

14 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

**Pwysig**

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

## Bore Coffi Clwb Gorffwysfan

**JERUSALEM, SADWRN 23 MEDI, 10 - 12. MYNEDIAD £1.00**

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

### RHAGLEN 2023/2024

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch AG EITHRIO** cyfarfod mis Rhagfyr. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynyddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.15 o'r gloch.**

**Lleoliad y cyfarfodydd:**
**Wyneb yn wyneb:** Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

**Rhithiol tros Zoom:** Cofrestrwch efo bethan@ogwen.org
Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf

**2023**

| | |
|---|---|
| Nos Lun 9 Hydref | 7.00 **Angharad Tomos** – Y Castell Siwgr. Angharad Tomos yn trafod ei nofel am Gastell Penrhyn a Chaethwasiaeth |
| Nos Lun 13 Tachwedd | 7.00 **Meg Elis** – Y nain arall – a neiniau pawb. Hanes Deiseb Merched Cymru |
| Nos Lun 11 Rhagfyr | 7.00 **Y CYFARFOD BLYNYDDOL**<br>7.15 **Dr. Gwen Angharad Gruffudd** – William Mark Owen, 3 Teras Penrhyn |

**2024**

| | |
|---|---|
| Nos Lun 8 Ionawr | 7.00 **Dr. Bleddyn Huws** – *Carneddog, a rhai o'i gyfeillion* |
| Nos Lun 12 Chwefror | 7.00 **Cynrig Hughes ac Arwyn Oliver** – *Helynt yn Rhiwlas, Pentir a Mynydd Llandygai – Streic Fawr Chwarel y Penrhyn* |
| Nos Lun 11 Mawrth | 7.00 **Dafydd Roberts** – *Atgofion William John, Pant-* **[Darlith Goffa Rhiannon Rowlands]** |
| **FFI AM Y CWRS** | £10.00 i rai mewn gwaith<br>£5.00 i bensiynwyr a'r di-waith<br>Plant ysgol am ddim<br>Cost darlithoedd unigol = £2.00 |

Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy:
BACS: 40-16-02 41386212, neu gyda arian parod ar y noson

**Swyddogion y Gymdeithas yn ystod 2022/23:**
**Cadeirydd**: Y Prif-fardd Ieuan Wyn
**Trefnydd / Trysorydd**: Dafydd Roberts, (01248) 600798 dafydd@caerwern.cymru
**Ysgrifennydd**: Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415
**Llywyddion Anrhydeddus:** Dr John Llywelyn Williams a'r diweddar Dr John Elwyn Hughes

# Calendr Llais Ogwan 2024

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2024 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Wasg Carreg Gwalch am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu a gwerthu'r Calendr.

Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr ar werth am £4.50 eleni yn y siopau canlynol:

- Siop Ogwen, Bethesda, a thrwy archeb gyda Cadwyn Ogwen
- Marchnad Ogwen
- Londis, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Post Rachub
- Llys Y Gwynt (Siop SPAR)
- Siop Palas Print, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

Gellir danfon y Calendr trwy'r post am £1.20 yn ychwanegol.

Ymholiadau archebion at Now Jones: 01248 600184 / post@llaisogwan.com



# Chwaraeon

## Bowlio gyda Bys a Bawd

### CYNGRHAIR MÔN / BANGOR A'R CYLCH

**Cwpan Festival Teiars Bangor Tyres -** Ar Nos Fercher 9$^{fed}$ o Awst ar noson hynod o braf yng Nghaernarfon, bu Tîm Bowlio Bethesda yn fuddugol yn erbyn Caergybi yn Rownd Derfynol Cwpan 'Festival Teiars Bangor / Bangor Tyres' (6-2 ar gemau, gyda gwahaniaeth o 28 pwynt yn y pwyntiau wedi'u cronni).

Mae sawl blwyddyn ers i'r tîm brofi'r fath lwyddiant ac roedd y Capten, Brynmor Jones yn llawn canmoliaeth am ymdrechion arwrol yr aelodau.

"Mae ennill y gwpan hon yn coroni blwyddyn o lwyddiant er bod ambell i siom wedi dod i'n rhan ar y daith" meddai Brynmor cyn ychwanegu, "Mi gawson ni help ambell waith gan rai o 'stalwarts' y tîm hŷn - rhai fel yr anghymharol Maldwyn Pritchard, y postmon cyfrwys, Heddwyn Morris a'r hamddenol George Owen. Asgwrn cefn y tîm wrth gwrs oedd y gwŷr ifanc."

Roedd Brynmor hefyd am ddiolch i Glwb Bowlio Caernarfon am gynnal y rownd derfynol heb anghofio swyddogion Cynghrair Môn/ Bangor a'r Cylch; ac yn arbennig i gwmni Teiars Bangor Tyres, noddwyr y gystadleuaeth.

Roedd Clwb Bowlio Bethesda yn derbyn £130 fel gwobr ariannol yn ogystal â'r gwpan hardd!

**Twrnamaint Agored Bethesda**
Ar Ddydd Sul 27.8.23 cynhaliwyd Twrnamaint Agored Bethesda ar lawnt Parc Villa a daeth 60 o gystadleuwyr draw o bob rhan o Ogledd Cymru.

Cystadleuaeth i barau yw hon, a'r buddugwyr oedd Adam Harris, Biwmares a Geraint Booth o Lanfairpwll yn derbyn gwobr o £300.

Diolch yn fawr i'r noddwyr canlynol am eu cefnogaeth;- John Roberts - Peintiwr ac Addurnwr, Richard Wyn Jones a'i Fab - Gwaith Tirol, Alison Owen - Barbwr Ogwen, Martin Rowlands - Gosodwr Carpedi, Dylan Roberts - Penisarwaun.

Hefyd am gyfraniadau siopau LONDIS a TESCO Bethesda.

Diolch arbennig i Siôn Guto Roberts am drefnu'r Twrnamaint Agored;

i John Roberts a'r criw am baratoi'r lawnt ac yn olaf i'r aelodau a fu'n brysur drwy'r dydd yn trefnu lluniaeth a dosbarthu raffl ayyb.

Meddai John Roberts, "Dyma ddiwrnod llwyddiannus iawn i Glwb Bowlio Bethesda a gobeithiwn gynnal diwrnodau tebyg eto yn y dyfodol."



**Tîm buddugol Bethesda yng Nghwpan 'Festival Teiars/Bangor Tyres' -** O'r chwith i'r dde gwelir George Owen, Heddwyn Morris, Maldwyn Pritchard, Ryan Short, Allan Griffiths, John Roberts, Richard Wyn Jones Derek Roberts, Brynmor Jones (Capten) Catrin Griffiths. Yn penlinio gyda'r cwpan mae Sam Whitehead a Callum Sorfleet.



**Y pâr buddugol, Geraint Booth, Llanfairpwll ac Adam Harris, Biwmares gyda Siôn Guto Roberts (Trefnydd) yn y canol**

### SAFLEOEDD Y TIMAU AR DDECHRAU MIS MEDI.

**Cynghrair Chwaraewyr hŷn Gwynedd (Adran 'B')**
Ar ddechrau'r mis roedd Bethesda'n drydydd gyda 108 o bwyntiau. Penmaenmawr oedd ar y blaen gyda 125 o bwyntiau a Bangor yn ail gyda 119 o bwyntiau. Roedd Maldwyn Pritchard, capten y tîm hŷn yn bur fodlon gyda pherfformiad y tîm ac yn llongyfarch Denzil Jones a Fred Buckley, dau chwaraewr mwyaf cyson y tîm am safon eu bowlio trwy gydol y tymor.

**Cynghrair Môn a Bangor (Adran 1.) -** Yn y pedwerydd safle y tu ôl i Gaergybi, Biwmares a Llanfairpwll oedd Bethesda yn y gynghrair hon. Roedd gan Bethesda 91 o bwyntiau a Chaergybi gyda 125 o bwyntiau. Chwaraewr mwyaf llwyddiannus Bethesda oedd Siôn Guto Roberts wedi ennill 10 gem allan o 13.

**Cynghrair y Glannau (Adran 'B') -** Yn y pumed safle allan o naw oedd Bethesda yn y gynghrair hon. 96 o bwyntiau oedd gan Bethesda o'i gymharu â 123 gan Dyserth ar frig y tabl. Siôn Guto gyda gyda 12 buddugoliaeth allan o 15 oedd y gorau o Fethesda unwaith eto

**Cynghrair Môn -** Safai Bethesda yn y trydydd safle y tu ôl i Lanfairpwll a Chricieth yn y gynghrair hon sy'n cystadlu ar nosweithiau Llun drwy'r haf. Siôn Guto Roberts, y seithfed yn y gynghrair oedd chwaraewr mwyaf llwyddiannus Bethesda wedi ennill 11 gêm allan o 14.

Llongyfarchiadau i'r timau am berfformiadau canmoladwy.

## Ras y Mynydd



Lluniau: Nick Pipe

Ar y brig, am yr 2$^{il}$ flwyddyn yn olynnol, cipiodd Matthew Roberts y wobr gyntaf; a'i amser o 28 munud a 4 eiliad. Llongyfarchiadau gwresog, Matthew!

Unwaith croeswyd y rhedwyr y llinell derfyn, croesawyd hwy gan wledd o deisennau a diodydd o fewn y Neuadd Goffa, ble cafodd enillwyr y categoriau eu cyflwyno â'u gwobrau.

Braf oedd gweld cymaint o drigolion Mynydd Llandygai yn eu drysau a'u gerddi i annog y rhedwyr fel aent heibio. Diolch i Jude Williams a holl wirfoddolwyr y Neuadd Goffa am eu gwaith caled wrth baratoi a chynnal y ras, i gyd er budd y Neuadd Goffa – ysbryd cymunedol ar ei orau!

